Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Meithrin gallu, cydweithrediad ac amrywiaeth yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol:

Ymchwil i ddulliau cyllido arloesol ar gyfer prosiectau amgylcheddol

Adroddiad Gorffennaf 2021

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

the funding centre

Ymchwil i ddulliau cyllido arloesol ar gyfer prosiectau amgylcheddol

Tabl Cynnwys

1. Crynodeb 3
2. Briff y prosiect 3
3. Dull gweithredu a methodoleg 3
4. Cyd-destun y farchnad ac effaith COVID-19 5
5. Ariannu costau craidd a'r hyn y mae'n ei olygu o ran arloesi 8
6. Trosolwg ariannol o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru 10
7. Sut mae sectorau eraill yn cael eu cyllido? 15
8. Arloesi yn ôl ffynonellau incwm 16
    - 8.1. Cyllid statudol 16
    - 8.2. Rhoddion gan unigolion 17
    - 8.3. Ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol 23
    - 8.4. Cymorth corfforaethol 24
    - 8.5. Gwaddolion 27
    - 8.6. Incwm masnachol 28
    - 8.7. Dull cyllido sy'n seiliedig ar fuddsoddi 29
    - 8.8. Buddsoddiad cymdeithasol 31
    - 8.9. Crynodeb 32
9. Buddsoddi mewn codi arian 35
    - 9.1. Enillion disgwyliedig ar fuddsoddiad 36
10. Opsiynau ar gyfer adnoddau datblygu prosiectau a rennir 38
11. Casgliadau ac argymhellion 39

1. Crynodeb

- Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi comisiynu'r adroddiad hwn er mwyn dod o hyd i ffyrdd ymarferol i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol ehangu ei opsiynau ar gyfer cyllid a dysgu o ddatblygiadau arloesol sy'n digwydd mewn sectorau eraill a rhannau eraill o'r DU.
- Mae rhai datblygiadau cyffrous ym meysydd codi arian a chyllido a all fod wedi cael eu cyflymu yn ystod y 18 mis diwethaf, yn enwedig o ran dulliau digidol o godi arian gan y cyhoedd. Gan fod digwyddiadau codi arian a gweithgarwch masnachu bron wedi dod i ben ar adegau, mae llawer o elusennau wedi cymryd y cam doeth o newid eu gweithgarwch codi arian i lwyfannau digidol neu wedi rhoi cynnig ar ddulliau o godi arian sy'n newydd i'w sefydliad.
- Dangosodd dadansoddiad Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol o incwm 2017/18 yn y sector gwirfoddol ledled y DU sut mae achosion amgylcheddol, yn fwy nag unrhyw achosion eraill, yn cael eu cyllido gan roddion gan y cyhoedd ac mai dyma'r rhan o'r sector gwirfoddol sy'n cael y swm lleiaf o gyllid gan y llywodraeth.
- Mae'r data yn awgrymu bod y sector amgylcheddol ehangach hefyd yn cael y rhan fwyaf o'i incwm gan y cyhoedd. Mae hyn yn awgrymu y dylai amrywio'r ffyrdd y gall unigolion roi fod yn uchel ar y rhestr ar gyfer llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Yn y maes hwn, sef **rhoddion gan unigolion**, y mae'r rhan fwyaf o arloesi yn digwydd yn y sector gwirfoddol ehangach. Mae technoleg newydd yn cynnig cyfleoedd sy'n mynd y tu hwnt i ddefnyddio dyfeisiau digyffwrdd i roi arian, megis defnyddio deallusrwydd artiffisial, realiti rhithwir a thechnoleg cadwyni blociau. Fodd bynnag, yr elusennau cenedlaethol mawr sy'n manteisio ar ddatblygiadau arloesol o'r fath yn bennaf ac ychydig iawn o ddefnydd a wneir ohonynt gan sefydliadau llai o faint o hyd oherwydd diffyg sgiliau, capasiti a gwybodaeth.
- Mae'r duedd tuag at fabwysiadu dulliau cyllido mwy amrywiol yng Nghymru yn amlwg, am fod cyfran yr incwm a ddaw o **ffynonellau yn y sector cyhoeddus** wedi graddol leihau yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r darlun cadarnhaol hwn yn cuddio'r heriau gwirioneddol iawn y mae sefydliadau yn eu hwynebu am fod angen iddynt geisio sicrhau cyllid fwyfwy byrdymor ar gyfer prosiectau. Yn anecdotaidd, ymddengys, er bod cyllid yn fwy amrywiol, nad yw incwm cyffredinol y sector wedi cynyddu.
- Yn dilyn gadael yr UE, amser a ddengys pa fudd a gaiff Cymru o'r trefniadau cyllido newydd a fydd yn disodli cyllid yr UE. Gyda'r 'adferiad gwyrdd' yn bendant ar yr agenda a dull rhagweithiol Llywodraeth Cymru o edrych ar fodelau cyllido arloesol ar gyfer cyrff anllywodraethol amgylcheddol, ni fyddai'n amhriodol tybio y gallai cyllid newydd fod ar gael yn y dyfodol agos. Mae angen i'r sector fod yn barod i gyflwyno'r achos o ran sut y gellir gwario cyllid yn dda.
- Grantiau gan **ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol** sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r incwm i lawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint yng Nghymru a ledled y DU. Mae'n anodd bod yn arloesol o ran codi arian gan ymddiriedolaethau ond, weithiau, y cyllidwyr eu hunain sy'n arloesi. Yn ystod argyfwng COVID-19, mae cyllidwyr wedi cydweithio'n agos, gan rannu eu hadnoddau er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o effaith. Un enghraifft yn unig yw'r 'Green Match Fund' a drefnwyd yn gynharach eleni (gweler Enghraifft 5 isod).
- Er ei bod yn bosibl nad yw **codi arian o ffynonellau corfforaethol** yn ffurfio cyfran fawr o'r incwm a gynhyrchir gan weithgarwch codi arian, o ystyried proffil yr argyfwng hinsawdd a'r ddealltwriaeth gynyddol o'r argyfwng natur, mae'n rhesymol tybio, dros y degawd nesaf, y gwelir mwy o fuddsoddi yn yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn gyffredinol, a fydd yn cael lle mwy blaenllaw mewn polisïau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn y dyfodol. Mae arwyddion bod partneriaethau mwy creadigol yn cael eu datblygu.

- Mae'n amlwg bod cynhyrchu **incwm masnachol** o weithgareddau masnachu yn llawer haws i sefydliadau â llawer o asedau. Er enghraifft, mae'r sefydliadau hynny sydd ag asedau tir neu eiddo neu asedau ffisegol eraill mewn sefyllfa dda i greu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, manwerthu, arlwyo neu incwm rhenti. Fodd bynnag, mae gwasanaethau ymgynghori neu hyfforddi yn opsiwn i'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol hynny sydd ag asedau anniriaethol megis arbenigedd staff.
- Mae cynnig **hyfforddiant neu wasanaeth ymgynghori** yn ddull gweithredu masnachol poblogaidd ac yn un a ddefnyddir gan rai cyrff anllywodraethol amgylcheddol ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai ag arbenigedd penodol mewn perthynas â rhywogaeth benodol, er enghraifft. Mae'n golygu y gall elusennau godi ymwybyddiaeth o'u gweithgareddau ac, ar yr un pryd, gynhyrchu incwm anghyfyngedig.
- Nid yw **dull seiliedig ar fuddsoddi o gyllido cadwraeth** wedi'i ystyried yn fanwl yn yr adroddiad hwn gan fod swyddogion Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff anllywodraethol amgylcheddol, eisoes wedi dod at ei gilydd i gyd-gynhyrchu fframwaith cyllido arloesol. Ymhen amser, bydd y grŵp hwn yn gwneud argymhellion pellach i'w hystyried gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol ynghylch ffyrdd newydd o gau'r bwlch cyllido.
- Er mwyn i weithgarwch codi arian fod yn llwyddiannus, fod angen **buddsoddi parhaus** dros gyfnod hir o amser. Nid yw'n bosibl denu rhoddwyr na'u cadw, heb rywfaint o fuddsoddiad mewn adnoddau a'r gyllideb gwariant. Daw llawer o'r enghreifftiau o arloesi a geir yn yr adroddiad hwn o elusennau cenedlaethol mawr y mae llawer o adnoddau ar gael iddynt. Yn anffodus, nid yw llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru yn ddigon mawr i ystyried buddsoddi mewn llawer o'r datblygiadau arloesol a nodir, sy'n aml yn gofyn am faint a chyrhaeddiad er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus. Heb gymorth allanol, bydd cyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint yn ei chael hi'n anodd arloesi ym maes codi arian.
- Os penderfynir buddsoddi mewn gweithgarwch codi arian, gall sefydliadau ddisgwyl gweld **enillion ar fuddsoddiad** yn y tymor hwy, gydag adroddiadau meincnodi diweddar yn nodi mai'r enillion cyfartalog ar fuddsoddiad am bob £1 sy'n cael ei gwario yw £6.83 (gan gynnwys cymynroddion).
- Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i gyllidwyr, yn enwedig cyllidwyr statudol a chyllidwyr loteri, geisio cynigion sy'n gofyn am **ddull partneriaeth**. Gallai cydweithio fod yn un ffordd o fynd i'r afael â phroblemau capasiti (e.e. adnoddau neu wasanaethau a rennir). Gall gweithio mewn partneriaeth fynd i'r afael â phroblemau megis graddfa, cyrhaeddiad ac effaith prosiectau, gan eu gwneud yn fwy deniadol i gyllidwyr neu fuddsoddwyr.
- Rydym wedi ceisio deall y cyd-destun gweithredu ehangach ac effaith COVID-19, yn ogystal â'r ffordd y caiff y sector ei gyllido ar hyn o bryd. Mae COVID-19 wedi cael cryn effaith ar y sector a gallai'r effeithiau negyddol fod yn rhai hirbarhaol. Y meysydd cynhyrchu incwm sydd fel arfer yn darparu cyllid anghyfyngedig sy'n talu costau craidd yw'r rhai sydd wedi dioddef waethaf o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys incwm o weithgareddau masnachu ac ymgyrchoedd codi arian gan y cyhoedd.
- Gellir dadlau bod diffyg sefydlogrwydd o ran cyllid craidd yn ffactor sy'n rhwystro arloesi. Gall y ffaith bod ei gyllid craidd wedi'i sicrhau roi'r amser a'r adnoddau i'r rhai sy'n codi arian ac aelodau eraill o staff mewn sefydliad amrywio ffrydiau incwm a phrofi a datblygu syniadau mwy arloesol ar gyfer sicrhau cyllid a mentro.
- Mae sectorau eraill, er enghraifft y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon, yn cael cryn dipyn o gyllid craidd o grantiau'r Llywodraeth. Mae'r lefel hon o arian cyhoeddus yn chwarae rôl hanfodol o ran talu costau craidd, gan sicrhau bod amcanion Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni a galluogi'r sefydliadau hynny sy'n derbyn grantiau i ganolbwyntio ar gynhyrchu cyllid arall o ffynonellau eraill.

- Fodd bynnag, yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol, mae cyllidwyr statudol a chyllidwyr loteri wedi symud i ffwrdd o fodel lle y rhoddir grant craidd i ddull gweithredu lle y rhoddir grantiau ar gyfer prosiectau unigol yn bennaf, heb roi fawr ddim dyfarniadau aml-flwyddyn. Mae'r cyllid byrdymor hwn ar gyfer prosiectau yn golygu nad oes gan sefydliadau yr adnoddau i ymchwilio i ddulliau cyllido newydd oherwydd yr amser a dreulir yn sicrhau'r grantiau hyn ar gyfer prosiectau.
- Mae rhaglenni 'cydnerthedd' yn sector y celfyddydau a'r sector treftadaeth wedi darparu buddsoddiad y mae ei fawr angen er mwyn i'r sefydliadau hyn ddatblygu a phrofi ffyrdd newydd o godi arian. Gallai cynllun tebyg yn benodol ar gyfer y sector amgylcheddol yng Nghymru, ynghyd â modelau gwell ar gyfer cyllid craidd o ffynonellau cyhoeddus, roi'r hwb sydd ei angen i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a phrofi dulliau cyllido arloesol.
- Mae Cymru yn dioddef oherwydd prinder gweithwyr proffesiynol medrus ym maes codi arian, ar bob lefel, sy'n golygu ei bod yn anodd iawn recriwtio i'r swyddi hyn. Gan ddysgu o lwyddiant Arts & Business Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf, gallai rhaglen interniaeth sector-benodol i ddenu unigolion sydd newydd raddio i yrfa ym maes codi arian fod yn fuddiol iawn yn y byrdymor a'r hirdymor i gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Gellid ystyried mai Cyswllt Amgylchedd Cymru yw hwylusydd naturiol hyn, ar yr amod y gall greu partneriaethau cryf â phrifysgolion yng Nghymru ac annog mwy o dalent i ymuno â'r sector.

2. Briff y prosiect

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi comisiynu'r adroddiad hwn er mwyn dod o hyd i ffyrdd ymarferol i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol ehangu ei opsiynau ar gyfer cyllido prosiectau. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cydnabod bod llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru yn dibynnu ar nifer bach o ymddiriedolaethau mawr, neu arian cyhoeddus, i gyllido eu gwaith. Mae cyllid craidd yn mynd yn fwyfwy prin ac mae hefyd yn mynd yn fwyfwy anodd nodi cyllid ar gyfer prosiectau.

Mae'r amcanion a nodir yn y briff fel a ganlyn:

- Nodi dulliau neu fodelau ar gyfer cyllido prosiectau amgylcheddol a gynhelir, o bosibl, mewn partneriaeth, a fydd yn cynnwys dulliau cyllido preifat a chyhoeddus.
- Edrych ar sectorau eraill (e.e. sector y celfyddydau) i weld beth y gellir ei ddysgu.
- Gwneud argymhellion ymarferol y gall cyrff anllywodraethol amgylcheddol eu defnyddio i ehangu eu cyfleoedd cyllido.
- Cwmpasu rhai opsiynau ar gyfer adnoddau datblygu prosiect a rennir y gallai cyrff anllywodraethol amgylcheddol eu defnyddio i feithrin eu gallu i ddatblygu prosiectau aml-bartner, yn enwedig os nad ydynt yn cyflogi staff datblygu prosiectau penodedig.

3. Dull gweithredu a methodoleg

Gellir diffinio arloesi fel creu rhywbeth newydd - gallai fod yn gynnyrch newydd, yn broses newydd neu'n ffordd newydd o wneud pethau. Gall dulliau o gynhyrchu incwm sydd wedi hen ennill eu plwyf mewn un sector gael eu datblygu ar gyfer y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Gall yr hyn sy'n arloesol ar gyfer un sefydliad fod yn 'fusnes fel arfer' i sefydliad arall. Mae'r adroddiad hwn wedi diffinio arloesi mewn ffordd eang iawn.

Gwnaed ymchwil ddesg er mwyn edrych ar y cyd-destun cyllido ehangach, effaith COVID-19 ac anawsterau o ran sicrhau cyllid craidd. Gan ddefnyddio data'r Comisiwn Elusennau, ymchwiliwyd hefyd i'r ffordd y caiff aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru eu cyllido ar hyn o bryd. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd adolygiad o'r gwahanol ffynonellau cyllido sydd ar gael ar hyn o bryd a, lle y bo'n gymwys, pa ddatblygiadau arloesol sy'n digwydd yn y ffrydiau incwm hyn.


Mae Ffigur 1 yn disgrifio'r sbectrwm cyfan o weithgarwch cynhyrchu incwm mewn sefydliadau nid er elw. Ni wnaethom ystyried yn fanwl yr incwm a geir gan brynwyr na defnyddwyr (e.e. contractau statudol neu incwm masnachol).

Yn seiliedig ar ein hymchwil, mae set o argymhellion wedi'i chynnig i'w hystyried gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a chyrff anllywodraethol amgylcheddol er mwyn ehangu eu sylfaen gyllido. Rydym hefyd wedi amlinellu opsiynau ar gyfer adnoddau datblygu prosiectau a rennir.

Fel gydag unrhyw adroddiad o'r fath, bydd cyfyngiadau. Er enghraifft, oherwydd amrywiaeth y cyrff anllywodraethol amgylcheddol a geir yng Nghymru, ni fydd pob argymhelliad yn briodol. Bydd pob sefydliad anllywodraethol amgylcheddol yn wahanol o ran ei adnoddau, maint ei gynulleidfa, ei awydd i fentro ansawdd ei asedau. Gallai'r elfen olaf (sy'n cynnwys asedau diriaethol e.e. tir neu adeiladau ac asedau anniriaethol e.e. arbenigedd staff) fod yn allweddol i gynhyrchu incwm mewn sawl maes codi arian.

Daw llawer o'r enghreifftiau a ddefnyddir i ddangos arloesedd o elusennau mwy o faint y mae llawer o adnoddau ar gael iddynt. Ar gyfer elusennau llai o faint, efallai y bydd arloesi ar ffurf rhoi cynnig ar rywbeth sy'n gweithio rywle arall ond sy'n newydd iddyn nhw (er enghraifft marchnata cymynroddion). Fodd bynnag, ni fwriedir i'r adroddiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o 'ydych chi wedi rhoi cynnig ar hyn…?' Yn hytrach, mae'n cydnabod y ffaith bod llawer o ffyrdd o gynhyrchu incwm.

Ffigur 1: y sbectrwm incwm (Ffynhonnell: Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol)



4. Cyd-destun y farchnad ac effaith COVID-19

Ymchwiliwyd i effaith COVID-19 ar y sector gwirfodddol, fe'i harolygwyd a chyflwynwyd adroddiadau arni ar sawl adeg yn ystod y 16 mis diwethaf ers i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth 2020. Mae'r darlun yn dal i ddod i'r amlwg ac rydym yn debygol o weld effaith yr argyfwng am sawl blwyddyn i ddod. Nid yw'n syndod bod yr ymchwil a wnaed hyd yma wedi dangos bod yr argyfwng wedi cael effaith ariannol negyddol iawn ar lawer o elusennau.

Mae Pro Bono Economics (PBE)[1] wedi bod yn cynnal Arolwg Tracio Elusennau yn ystod pandemig COVID-19 ers mis Ebrill 2020, mewn partneriaeth â'r Grŵp Cyllid Elusennau a'r Sefydliad Siartredig Codi Arian. Mae'r Arolwg Tracio hwn wedi darparu gwybodaeth gyfredol am effaith argyfwng y coronafeirws ar elusennau, o alw cleientiaid am eu gwasanaethau i'w sefyllfa ariannol eu hunain a'r ffordd y maent yn addasu i'r her. Dengys ei ganfyddiadau fod yr argyfwng wedi cael effaith ddifrifol ar gyllid elusennau a disgwylir i'r niwed bara ymhell i 2021 a thu hwnt. Fodd bynnag, er bod incwm dros hanner yr elusennau wedi lleihau yn ystod 2020, dangosodd canlyniadau'r arolwg fod incwm bron un o bob pedair elusen wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli hyn i

[1] Pro Bono Economics (2021), *The Charity Sector through Covid* . Ar gael yn: https://www.probonoeconomics.com/the-charity-sector-through-covid

incwm statudol ychwanegol a chynnydd mewn rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol, sef y ddwy ffrwd incwm sydd wedi cynyddu ers dechrau'r argyfwng.

Mae arolwg a gynhaliwyd gan y Sefydliad Siartredig Codi Arian[2] yn 2020 yn cadarnhau hyn. Dangosodd ei ganlyniadau fod 84% o elusennau wedi cofnodi lleihad neu leihad sylweddol yng nghyfanswm eu hincwm yn ystod y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, roedd anghysondebau mawr hefyd rhwng ffynonellau incwm. Ar gyfartaledd, nododd elusennau fod eu hincwm o weithgarwch masnachu 72% yn is na'r disgwyl a bod incwm gwirfoddol 14% yn is. Ar y llaw arall, nododd elusennau fod grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau 29% yn uwch na'r disgwyl a bod grantiau a chontractau gan y Llywodraeth 51% yn uwch na'r disgwyl.

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, dechreuodd y Sefydliad Cymorth i Elusennau gynnal arolygon mynych o elusennau ac, erbyn mis Mehefin 2020, nododd dros hanner (53%) eu hymatebwyr fod rhoddion i'w helusen wedi lleihau[3]. Fodd bynnag, dangosodd adroddiad arbennig y Sefydliad Cymorth i Elusennau[4], a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, er gwaethaf yr argyfwng, fod cyfran gyffredinol y bobl a roddodd arian i elusennau wedi aros yn gyson, fwy neu lai, â blynyddoedd blaenorol. Mae hefyd yn nodi, rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2020, fod y cyhoedd wedi rhoi £5.4 biliwn i elusennau, sef cynnydd o £800 miliwn o gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Nid yw'n syndod ei fod hefyd yn nodi mai 'ysbytai a hosbisau', gan gynnwys elusennau'r GIG, a welodd y cynnydd mwyaf mewn cymorth ariannol.

Mae'n amlwg, o ganlyniad i effaith ariannol y pandemig ar y trydydd sector ehangach, fod llawer o sefydliadau yn cael trafferthion a'u bod yn cwtogi ar eu gweithrediadau wrth i incwm a lefelau staffio ostwng.

Gwnaeth y Funding Centre ymchwil benodol i effaith COVID-19 ar y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) tua diwedd 2020[5]. Unwaith eto, mae a wnelo'r pryderon â chyllid yn bennaf.

Mae'r adroddiad yn nodi faint o'r cyfweleion a nododd fod eu hincwm wedi lleihau'n sylweddol dros y cyfnod ac a fynegodd bryder y gallai gymryd peth amser i'r sector adfer. Yn gysylltiedig â hyn, mae'n anochel y bu lleihad mewn gweithgarwch ymgysylltu â gwirfoddolwyr, aelodau a rhanddeiliaid eraill, y mae iddo oblygiadau i ffrydiau incwm byrdymor a thymor hwy. Mae cyfres o ddyfyniadau gan gyfweleion isod yn rhoi rhyw syniad o'r darlun cyffredinol:

[2] Y Sefydliad Siartredig Codi Arian (2020), *Impact on the charity sector during coronavirus - research report June 2020* . Ar gael yn: https://www.institute-of-fundraising.org.uk/news/charities-are-facing-a-124bn-shortfall-in-income-for-the-year/

[3] Y Sefydliad Cymorth i Elusennau (2020) *June 2020 CAF Charity Coronavirus Briefing: 3 months into lockdown, how are charities in the UK faring?* . Ar gael yn: https://www.cafonline.org/about-us/publications/2020-publications/coronavirus-impact-on-charities

[4] Y Sefydliad Cymorth i Elusennau (2020) *UK Giving and Covid-19, a special report* . Ar gael yn: https://www.cafonline.org/about-us/publications

[5] The Funding Centre (2020) *Adferiad gwyrdd: cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru 2020*. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/green-recovery-supporting-the-environmental-sector-in-wales/?lang=cy

"Mae ein hincwm wedi lleihau'n sylweddol. Er enghraifft, lleihaodd noddwr corfforaethol mawr ei gymorth ariannol 50% dros nos"

"Aethon ni o sefyllfa lle roeddem yn talu ein costau i ddiffyg o 650k a rhoddwyd pob aelod o'r staff ar ffyrlo heblaw tîm bach iawn"

"Effaith fawr ar aelodaeth. Canslodd cryn nifer o unigolion eu haelodaeth i ddechrau. Hefyd, gwnaethom golli bron yr holl roddion y byddem wedi'u cael fel arfer drwy ymweliadau a digwyddiadau"

"Roedd yr holl staff addysg, allgymorth, marchnata a digwyddiadau ar ffyrlo. Felly, mae hyn wedi cael effaith fawr ar weithgarwch ymgysylltu. Rydym yn rhagweld y byddwn yn colli rhwng 30% a 45% o'n hincwm, yn dibynnu ar sut y bydd yr economi yn perfformio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf"

"Effaith gychwynnol enfawr gan fod ein canolfan ymwelwyr wedi cau, lleihaodd ein hincwm 40% a bu'n rhaid i ni roi pob aelod o staff sy'n gysylltiedig ag ochr atyniadau'r busnes ar ffyrlo".

Ni nododd pob un o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol a gymerodd ran yn yr adroddiad penodol hwn effaith mor negyddol ar eu cyllid. Mae'n werth nodi mai'r sefydliadau hynny a oedd wedi gwneud ymdrech i amrywio eu ffynonellau incwm cyn y pandemig, sydd wedi dioddef waethaf mewn gwirionedd, am fod yn rhaid i siopau gau a gweithgareddau masnachu eraill stopio. Bydd y gallu i ddod drwy argyfyngau o'r fath yn dibynnu i raddau helaeth ar gydnerthedd ariannol cyffredinol sefydliadau, gan gynnwys lefelau eu cronfeydd wrth gefn. Ar gyfer y trydydd sector ehangach, ymddengys mai'r sefydliadau llai o faint sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn hyn o beth. Mae Sefydliad Banc Lloyds[6] wedi bod yn monitro effaith COVID-19 ar eu deiliaid grant, sydd i gyd yn elusennau ag incwm o lai na £1 filiwn y flwyddyn. Mae'n nodi bod gan dros 50% o'i ddeiliaid grant lai na gwerth tri mis o gostau gweithredu mewn cronfeydd wrth gefn. Mae hefyd yn nodi, hyd yn oed yn achos y rhai sydd â chronfeydd wrth gefn ar gyfer 3-6 mis, y bydd yr effaith estynedig ddisgwyliedig ar incwm ynghyd â phwysau parhaus ar y galw yn lleihau'r cronfeydd wrth gefn hyn yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol, nododd arolwg Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad[7] yn gynnar yn ystod yr argyfwng fod dros chwarter naill ai wedi dweud eu bod yn wynebu risg uchel o fynd yn ariannol anhyfyw yn y misoedd i ddod neu wedi cadarnhau bod ganddynt werth llai na 4 mis o gronfeydd ariannol wrth gefn i oroesi. Dangosodd data o arolwg a gynhaliwyd gan Cysywllt Amgylchedd Cymru ym mis Gorffennaf 2020[8] nad oedd gan 3 o bob 11 o ymatebwyr o leiaf werth 4 mis o gronfeydd wrth gefn.

Mae effaith argyfwng COVID-19, yn enwedig ar gyllid craidd ac, felly, ar gronfeydd wrth gefn elusennau, yn un sylweddol. Y meysydd cynhyrchu incwm sy'n darparu cyllid anghyfyngedig yw'r union rai sydd wedi dioddef waethaf o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys digwyddiadau codi arian, ymgyrchoedd codi arian corfforaethol ac incwm masnachu. Er bod rhai cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi lliniaru'r bygythiad hwn drwy ddefnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y

[6] Sefydliad Banc Lloyds (2020), *Charities responding to COVID-19* . Ar gael yn: https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/covid-19/covid

[7] Cronfa Dreftadaeth y Loteri (2020), *eNGO Coronavirus Impact Survey Report, March 2020* . Ar gael yn: https://www.heritagefund.org.uk/publications/engo-coronavirus-impact-survey-report-march-2020

[8] Cyswllt Amgylchedd Cymru (2020), *Summary of impacts of COVID-19 on WEL members*. Ar gael yn: https://business.senedd.wales/documents/s103046/CP%2005a%20Wales%20Environment%20Link.pdf.

Coronafeirws Llywodraeth y DU a chronfeydd argyfwng eraill, yn ddiau bydd yr effaith yn para am amser hir.

5. Ariannu costau craidd a'r hyn y mae'n ei olygu o ran arloesi

Gellir dadlau bod arloesi ym maes cyllido yn fwy heriol os nad oes gan sefydliad y sefydlogrwydd a roddir gan y ffaith bod cyfran fawr o'i gyllid craidd wedi'i gwarantu. Mae'r ffaith bod ei gyllid craidd wedi'i sicrhau yn rhoi'r amser a'r adnoddau i'r rhai sy'n codi arian ac aelodau eraill o staff yn y sefydliad amrywio ffrydiau incwm a phrofi a datblygu syniadau mwy arloesol ar gyfer sicrhau cyllid. Mae sefydliad sefydlog yn llawer mwy tebygol o fod yn barod i fentro a gallu rheoli methiant prosiectau. Mae sefydliad yn llai tebygol o arloesi os na all dderbyn na fydd rhai o'r pethau newydd y mae'n rhoi cynnig arnynt yn gweithio. Ar ochr arall y ddadl, mae rhai yn credu bod y diffyg sefydlogrwydd sy'n deillio o beidio â meddu ar gyllid craidd yn ysgogi sefydliadau i amrywio ffrydiau incwm ac arloesi.

Cyllid craidd yw'r greal sanctaidd ym maes codi arian a bu llawer o drafodaeth dros flynyddoedd lawer yn y sector gwirfoddol ac â chyllidwyr fel ei gilydd. Mewn sectorau eraill, megis y Celfyddydau a Diwylliant, darperir cyllid craidd yn bennaf gan grantiau sylweddol gan y Llywodraeth. Mae'r lefel hon o arian cyhoeddus yn chwarae rôl hanfodol o ran talu costau craidd, gan sicrhau bod amcanion Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni a galluogi'r sefydliadau hynny sy'n derbyn grantiau i ganolbwyntio ar gynhyrchu cyllid arall o ffynonellau eraill. Cyngor y Celfyddydau sy'n gyfrifol am ddosbarthu grantiau Llywodraeth Cymru ac mae'n gwneud hynny drwy'r sefydliadau 'portffolio' a ddewiswyd ganddo am gyfnod o 5 mlynedd, gan roi diogelwch a sefydlogrwydd dros gyfnod llawer hwy o amser nag a welir mewn sectorau eraill. Dyma un rheswm pam mae llawer o sefydliadau celfyddydol wedi llwyddo i ddatblygu eu timau codi arian ac, felly, amrywiaeth o ffrydiau incwm.

Fodd bynnag, yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol, mae cyllidwyr statudol a chyllidwyr loteri wedi symud i ffwrdd oddi wrth fodel lle y rhoddir grant craidd i dalu'r costau gweithredu sylfaenol, i ddull gweithredu lle y rhoddir grantiau ar gyfer prosiectau unigol yn bennaf, gydag ychydig o ddyfarniadau aml-flwyddyn yn cael eu gwneud. Mae'r model hwn yn golygu bod cyllid wedi'i gyfyngu ac mai dim ond cyfran fach ohono y caiff sefydliadau ei wario ar y gorbenion sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithgaredd neu'r prosiect penodol. Mae'n anochel bod hyn yn ffafrio sefydliadau mwy o faint sydd â'r adnoddau a'r arbenigedd ariannol i reoli cyllidebau fel hyn.

Mae adroddiad y Funding Centre[9] yn 2020 yn nodi bod cyllido prosiectau yn cael ei ystyried yn aneffeithlon gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol, yn enwedig pan fydd cyllid ar gyfer y byrdymor yn unig. Y rheswm dros hyn yw'r amser a dreulir yn cwblhau ffurflenni cais sy'n aml yn gymhleth a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â pheidio â sicrhau'r cyllid hwnnw. Yn anffodus, yn fwyfwy mae cyllidwyr statudol yn newid i grantiau a chontractau blwyddyn, sy'n golygu bod yn rhaid i sefydliadau reoli'r baich gweinyddol a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â recriwtio staff ar gyfer prosiect byrdymor, y risg o fethu â sicrhau cyllid parhaus a chau prosiectau dim ond i'w sefydlu eto y flwyddyn ganlynol. Gellid dweud hefyd fod y dull cyllido hwn yn atal ymddygiad cydweithredol am fod sefydliadau yn cystadlu am gyllid cyfyngedig.

Dylid nodi nad yw'r problemau a nodwyd uchod yn benodol i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Cynhaliodd Sefydliad Cymunedol Cymru gyfweliadau â mwy na 100 o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru yn 2019 a chyhoeddodd ei ganlyniadau yn ei adroddiad, *Yn Uchel ac yn Groch*[10]. Nododd 91% o'r cyfweleion mai cyllid oedd eu problem fwyaf a gwnaethant sôn yn benodol am gael gafael ar gyllid craidd a'u hawydd i gael cyllid tymor hwy.

[9] The Funding Centre (2020) *Adferiad gwyrdd: cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru*

[10] Sefydliad Cymunedol Cymru (2020) *Yn Uchel ac yn Groch*. Ar gael yn: https://communityfoundationwales.org.uk/cy/changing-lives/uchel-ac-yn-groch/

Mae adroddiad y Funding Centre yn nodi bod yr holl randdeiliaid yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol a gymerodd ran yn yr ymchwil o'r farn mai darparu cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru oedd y cam pwysicaf, o bosibl, i ddiogelu sefydlogrwydd y sector a sicrhau y gall wrthsefyll heriau yn y dyfodol.

Gan ddefnyddio sector y Celfyddydau a Diwylliant fel cymhariaeth eto, mae pryder bod llawer o sefydliadau celfyddydol yn dibynnu gormod ar arian cyhoeddus. Mewn ymateb i hyn, bu llawer o fentrau i helpu'r sector i ehangu ei sylfaen gyllido. Mae Cynghorau'r Celfyddydau yng Nghymru a Lloegr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni 'Cydnerthedd', gan helpu sefydliadau i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol drwy hyfforddi staff a darparu gwasanaeth ymgynghori. Yn yr un modd, yn y sector Treftadaeth, mae sawl rhaglen cydnerthedd wedi'u cynnal (er enghraifft Catalydd Cymru - Codi Arian ar gyfer Treftadaeth 2014-2018) er mwyn helpu sefydliadau i ddatblygu eu strategaethau cynhyrchu incwm eu hunain drwy ddarparu hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori. Mae'r gwerthusiadau o'r rhaglenni hyn wedi dangos eu bod yn llwyddiannus, gyda'r olaf yn nodi[11]:

- bod 44% o'r sefydliadau wedi gweld incwm cyson neu uwch ar unwaith o ganlyniad i hyfforddiant Catalydd.
- bod 85% yn disgwyl incwm cyson neu uwch gan ffynonellau preifat yn y 12 mis nesaf.

Gallai buddsoddi mewn rhaglen debyg yn benodol ar gyfer y sector amgylcheddol yng Nghymru, ynghyd â modelau gwell ar gyfer cyllid craidd o ffynonellau cyhoeddus, roi'r hwb sydd ei angen i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a phrofi dulliau cyllido arloesol.

Er bod llawer o sefydliadau yn cydnabod bod angen buddsoddi mewn gweithgarwch codi arian a bod gan rai gryn dipyn o arbenigedd, mae sefydliadau yn teimlo eu bod yn cael eu rhwystro'n aml gan y ffaith nad oes ganddynt y sgiliau na'r arbenigedd i wneud hynny. Yn anffodus, mae Cymru bob amser wedi dioddef oherwydd prinder gweithwyr proffesiynol medrus yn y maes hwn, ar bob lefel ac ym mhob math o faes codi arian, sy'n golygu ei bod yn anodd iawn recriwtio i'r swyddi hyn. Gan ddefnyddio sector y celfyddydau fel enghraifft eto, cydnabu Arts and Business Wales hyn bron i ddegawd yn ôl ac, mewn ymateb, creodd raglen lwyddiannus 'Interniaethau Creadigol' er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon (gweler Enghraifft 1 isod). Gallai'r math hwn o raglen interniaethau i raddedigion fod yn fuddiol iawn yn y byrdymor a'r hirdymor i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol a gellid ystyried mai Cyswllt Amgylchedd Cymru yw hwylusydd naturiol hyn ar yr amod y gall feithrin partneriaethau cryf â phrifysgolion yng Nghymru a bod ganddo'r adnoddau ychwanegol i gyflawni.

ENGHRAIFFT 1: Rhaglen Interniaethau Creadigol Arts and Business Cymru

Nod y cynllun, a ariennir gan Sefydliad Moondance ar hyn o bryd, yw denu unigolion sydd newydd raddio i yrfa ym maes codi arian a'u lleoli ar interniaeth 10 mis â chyflog llawn mewn sefydliadau celfyddydol fel codwyr arian dan hyfforddiant. Ers i'r rhaglen ddechrau, mae 24 o interniaethau wedi'u cwblhau ac mae 5 arall yn eu lleoliad ar hyn o bryd. Caiff pob intern ei gefnogi â phecyn mentora gan uwch weithiwr proffesiynol yn y maes a'r cyfle i gael hyfforddiant am ddim. Mae'r rhaglen wedi cael cymorth ariannol mewn blynyddoedd blaenorol gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Genedlaethol a Sefydliad Garfield Weston, ymhlith eraill. Mae'r twf hwn yn y gweithlu yng Nghymru wedi bod o fudd i'r proffesiwn ar gyfer pob achos am na fydd codwyr arian, o reidrwydd, yn aros yn sector y celfyddydau.

[11] https://wcva.cymru/cy/projects/catalydd-cymru-treftadaeth-gydnerth/

6. Trosolwg ariannol o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru


Mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru mor amrywiol â'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol ehangach ei hun. Maent yn amrywio'n fawr o ran maint gyda chyfanswm incwm blynyddol yn amrywio o ychydig o dan £100,000 i £681m. Mae rhai yn elusennau seiliedig ar le, a chanddynt dir ac asedau ffisegol eraill, tra bod eraill yn sefydliadau ymgyrchu neu'n elusennau sy'n ymroddedig i ddiogelu rhywogaeth benodol ar dir neu ar fôr. Mae rhai wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn gweithio yng Nghymru yn unig, tra bod eraill yn elusennau cenedlaethol, sydd wedi'u lleoli dros y ffin ond sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae natur y fath amrywiaeth yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn golygu ei bod yn anodd cyffredinoli ynghylch y ffordd y maent yn cael eu cyllido ar hyn o bryd. Nododd adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a gomisiynwyd gan y Funding Centre[12] yn 2020, rywfaint o dystiolaeth o gyfres o gyfweliadau ag aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod sefyllfa ariannol y rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig yn wannach na'r rhai sydd â phencadlys yn Lloegr a'u bod yn llai effeithiol, o bosibl, wrth godi arian na'r rhai sydd â phresenoldeb cryf yn Lloegr.

Ymchwiliwyd i gyfrifon mwyaf diweddar 25 o elusennau sy'n aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru a gyhoeddwyd gyda'r Comisiwn Elusennau er mwyn cael darlun cliriach o'u sefyllfa ariannol bresennol. Felly, ni fydd argyfwng COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar yr incwm a gofnodwyd ganddynt am fod y cyfnod adrodd yn cwmpasu 2019/20 yn bennaf. Dim ond tua diwedd 2021, pan fydd elusennau yn dechrau cyhoeddi eu cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021, y bydd y darlun llawn o'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar weithgarwch codi arian yn dod i'r amlwg. Ar hyn o bryd, seilio'r adroddiad hwn ar yr hyn y gellid eu hystyried yn flwyddyn 'nodweddiadol' sydd fwyaf buddiol mewn unrhyw achos.

Dengys y siart dafellog isod fod incwm wedi'i rannu'n eithaf cyfartal rhwng incwm o weithgareddau elusennol ac incwm o roddion a chymynroddion. Yr hyn sy'n amlwg o'r darlun hwn yw mai prin yw'r elusennau sydd wedi cofnodi incwm sylweddol o weithgareddau masnachu.


[12] The Funding Centre (2020) *Adferiad gwyrdd: cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru.* Ar gael yn: https://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/green-recovery-supporting-the-environmental-sector-in-wales/?lang=cy



Ffynhonnell: Y Comisiwn Elusennau


Er nad yw'r incwm a gofnodir o weithgareddau masnachu yn gyfran fawr o gyfanswm yr incwm, mae'n bosibl bod hyn i'w briodoli i'r ffordd y mae rhai elusennau yn cofnodi eu hincwm. Er enghraifft, mae rhai elusennau wedi cofnodi incwm o werthiannau a gwasanaethau ymgynghori o dan 'incwm o Weithgareddau Elusennol' tra bod eraill yn cyfrif am incwm o'r fath o dan 'incwm o weithgareddau masnachu'. Bydd hyn yn dibynnu'n aml ar b'un a ystyrir bod yr incwm o weithgareddau masnachu yn helpu i gyflawni cenhadaeth yr elusen ai peidio. Mae'r anghysondeb hwn o ran y ffordd y caiff incwm ei gofnodi yng nghyfrifon elusennau yn gyffredin ym mhob rhan o'r sector gwirfoddol ac nid yw wedi'i gyfyngu i gyrff anllywodraethol amgylcheddol yn unig.

O'r 25 o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yr ymchwiliwyd iddynt, dim ond 14 a hysbysodd y Comisiwn Elusennau am unrhyw incwm o grantiau a chontractau'r Llywodraeth. Nododd ychydig dros hanner y rhain (8) ei fod yn cyfateb i 10% neu fwy o gyfanswm ei hincwm yn y flwyddyn ariannol honno a dim ond 2 a nododd fod mwy na hanner eu hincwm yn dod o grantiau'r Llywodraeth. Er nad yw pob elusen yn cofnodi ei hincwm yn yr un ffordd, mae hyn yn chwalu'r gred anecdotaidd ond cyffredin eu bod yn orddibynnol ar incwm statudol (sy'n wir am rai meysydd achos).




Ffynhonnell: Y Comisiwn Elusennau

Mae pob un o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol, ac eithrio 2, yn cofnodi incwm o ‘roddion a chymynroddion’ yn eu cyfrifon. Mae'r ddau nad ydynt yn cofnodi incwm o ‘roddion a chymynroddion’ yn nodi yng nghofnodion y Comisiwn Elusennau nad ydynt yn codi arian gan y cyhoedd. Er bod y swm a godir gan y 23 o elusennau eraill yn amrywio'n fawr, ar gyfartaledd mae'n cyfateb i 53% o gyfanswm eu hincwm (canolrif 51%). Ar gyfer mwy na thraean ohonynt, mae rhoddion a chymynroddion yn cyfateb i fwy na 75% o gyfanswm eu hincwm.



Ffynhonnell: Y cyfrifon mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gyda'r Comisiwn Elusennau

Dengys y data ar ffynonellau incwm ar gyfer y sector amgylcheddol ehangach fod aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn dibynnu mwy ar grantiau nag eraill yng Nghymru a Lloegr, gyda data Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol yn dangos, ar gyfartaledd, fod gan y sector amgylcheddol y ffynonellau incwm canlynol:



Ffynhonnell: Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol

Dengys y siart hon, ar gyfartaledd, fod y sector amgylcheddol ehangach yn cael ei gyllido i raddau helaeth gan roddion gan y cyhoedd yn hytrach na grantiau.

Yn anffodus, nid yw pob aelod o Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r hyn sy'n cyfateb i'w 'roddion a'i gymynroddion'. I rai, mae'n cynnwys tanysgrifiadau aelodaeth, tra bod eraill yn ystyried ei fod yn incwm o dan 'weithgareddau elusennol' yn hytrach nag o dan 'roddion'. Mae rhai o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cynnwys incwm statudol a grantiau eraill yn y categori hwn ond nid yw'r rhan fwyaf yn gwneud hynny. Cyfrifir amdano yn amlach o dan incwm o 'weithgareddau elusennol'. Nid yw'n cynnwys incwm o ddigwyddiadau codi arian na nawdd chwaith am fod incwm o'r fath yn cael ei ystyried fel arfer o dan incwm o weithgareddau masnachu. Mae pob un o'r amrywiadau hyn o ran y ffordd y mae incwm yn cael ei gofnodi yn golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau drwy edrych ar gyfrifon.

O ran incwm o gymynroddion, nododd 18 o'r elusennau eu bod wedi cael rhywfaint yn y flwyddyn ariannol honno, gyda hanner yn dweud ei fod yn cyfateb i lai na 155 o'r cyfanswm a gofnodwyd o dan roddion a chymynroddion. Nid yw'n syndod mai'r elusennau cenedlaethol mwy o faint sy'n cofnodi lefelau sylweddol o incwm o gymynroddion, am fod y cyhoedd yn llawer mwy ymwybodol o'r elusennau hyn ac am fod ganddynt yr adnoddau i'w neilltuo i weithgarwch marchnata cymynroddion.

Mae gan y mwyafrif (19) o'r elusennau hynny yr ymchwiliwyd iddynt gynllun aelodaeth unigol, sy'n cyfrif am rhwng 1% a 52% o gyfanswm yr incwm gyda chyfartaledd o 19% (canolrif: 18%), sy'n dangos bod hon yn ffynhonnell bwysig iawn o incwm.

Casgliadau'r trosolwg ariannol

Er nad oes un fformiwla ar gyfer sylfaen gyllido ddelfrydol, mae rhai dangosyddion yr ystyrir eu bod yn ‘iach’. Mae hyn yn cynnwys:

1. Cael cymysgedd amrywiol o ffrydiau incwm, gyda phob un ohonynt yn cael sawl ffynhonnell o incwm. Er enghraifft, nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn hytrach na dibynnu ar 1 neu 2 grant mawr yn unig.
2. Cyllid aml-flwyddyn.
3. Cael digon o arian wrth gefn i lenwi unrhyw fylchau mewn cyllid.
4. Mae gwaith meincnodi yn erbyn mathau tebyg o sefydliadau a sefydliadau o faint tebyg yn dangos canlyniadau tebyg neu ganlyniadau sy'n well na'r cyfartaledd.
5. Cael cynllun datblygu ar gyfer creu ffynonellau newydd o incwm.


Gelir dweud bod y rhan fwyaf o'r uchod yn wir am lawer o'r sefydliadau cenedlaethol mwy o faint sy'n aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru. Fodd bynnag, ar gyfer yr elusennau llai o faint sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn bendant mae mwy y gellid ei wneud i wella eu sylfaen gyllido.

Er na fwriedir i'r trosolwg hwn rhoi gwybodaeth fanwl am drefniadau cyllido aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru, mae'n dangos y canlynol:

- Nid ydynt yn orddibynnol ar incwm statudol.
- Mae gan aelodau Cyswllt Amgylched Cymru gymysgedd da o incwm cyfyngedig o grantiau ac incwm anghyfyngedig o roddion a chymynroddion (gan gynnwys tanysgrifiadau aelodaeth).
- Mae incwm o gymynroddion wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i'r sefydliadau mwy o faint, mwy adnabyddus.
- Mae'n amlwg bod cyfle posibl i ystyried amrywio ffynonellau incwm o weithgareddau masnachu ar gyfer rhai aelodau.

7. Sut mae sectorau eraill yn cael eu cyllido?

Mae llawer o wybodaeth am y ffordd y caiff y sector gwirfoddol ehangach ledled Cymru a Lloegr ei gyllido. Cydnabyddir yn eang mai *UK Civil Society Almanac*[13], a gyhoeddir gan y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol bob blwyddyn, yw'r cyhoeddiad cyfeirio diffiniol. Fel y nodwyd uchod, dangosodd argraffiad 2020 o'r *Almanac* (sy'n seiliedig ar ddata 2017/2018) sut mae'r sector amgylcheddol, yn fwy nag unrhyw sector arall, yn cael ei gyllido gan roddion gan y cyhoedd ac mai hwn yw'r sector sy'n cael y swm lleiaf o gyllid gan y Llywodraeth:



Ffynhonnell: Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol

Nid yw'r ymchwil yn hyn o beth yn ystyried maint y sefydliad ond, er gwaethaf hyn, mae'r data yn dangos, ar gyfartaledd, mai rhoddion gan y cyhoedd (gan gynnwys cymynroddion) yw'r ffynhonnell fwyaf o incwm ar gyfer pob sefydliad gwirfoddol waeth beth fo'i faint.

[13] Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (2020) *UK Civil Society Almanac 2020*. Ar gael yn: https://data.ncvo.org.uk/

8. Arloesi yn ôl ffynonellau incwm

Mae'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru yn amrywiol iawn. Mae'n cynnwys nifer bach o sefydliadau sy'n amrywio o ran maint a chapasiti, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn sefydliadau bach iawn. Bydd maint ac adnoddau yn cael dylanwad mawr ar allu sefydliad i ddatblygu ei strategaethau cynhyrchu incwm. Mae'n bwysig amrywio ffynonellau incwm yn ofalus, gan brofi gweithgarwch newydd cyn ymrwymo iddo a buddsoddi mewn sgiliau ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn rhoi ffrydiau incwm newydd ar waith yn llwyddiannus. Mae'n gyffredin iawn i sefydliadau llai o faint gael y rhan fwyaf o'u hincwm o nifer bach o ffynonellau a dylid nodi ei bod yn ddoeth buddsoddi'n sylweddol mewn un maes yn hytrach na rhannu adnoddau yn rhy denau rhwng llawer o feysydd gwahanol.

Mae'r adran hon yn nodi'r prif ffrydiau incwm sydd ar gael i sefydliadau sy'n codi arian gan roi enghreifftiau o arferion arloesol. Crynhoir y rhain yn Nhabl 1 isod.

8.1. Cyllid statudol

Mae cyfran yr incwm a ddaw o ffynonellau yn y sector cyhoeddus wedi graddol leihau yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Lleihaodd cyllid grant Llywodraeth Cymru tua 21% yn y saith mlynedd rhwng 2010/11 (£350 miliwn) a 2017/18 (£278 miliwn) ac mae contractau Llywodraeth Cymru wedi aros fwy neu lai yr un peth gyda £44 miliwn yn cael ei ddyfarnu i'r trydydd sector yn 2012/13 o gymharu â £45 miliwn yn 2017/18. At hynny, mae cylchoedd cyllido byrdymor sydd wedi dod yn gyffredin yn ddiweddar ar gyfer yr holl gyllid statudol wedi cael effaith negyddol sylweddol.

Yn dilyn gadael yr UE, amser a ddengys pa fudd a gaiff Cymru o'r trefniadau cyllido newydd a fydd yn disodli cyllid yr UE. Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a fydd yn darparu £220 miliwn yn 2021-22 yw rhagflaenydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a gaiff ei lansio yn 2022. Nid yw'n glir ym mha ffordd y bydd y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru yn cael budd o'r cronfeydd hyn ond mae canllawiau cychwynnol yn awgrymu y dylai pob prosiect a gyllidir allu dangos maint ei gyfraniad at amcanion sero net neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Maent yn nodi hefyd sut y bydd angen i brosiectau ystyried sut maent yn gweithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni amcanion prosiect.

Gyda'r 'adferiad gwyrdd' yn bendant ar yr agenda a dull rhagweithiol Llywodraeth Cymru o edrych ar fodelau cyllido arloesol ar gyfer cyrff anllywodraethol amgylcheddol, ni fyddai'n amhriodol tybio y gallai cyllid newydd fod ar gael yn y dyfodol agos.

Nid contractau statudol na chomisiynu yw prif ffocws y papur hwn ond mae'n bosibl ei bod yn berthnasol i rai cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Er na ellir ystyried bod hyn yn arloesol, y prif feysydd ffocws fyddai sicrhau bod:

- Cydberthnasau presennol yn cael eu cynnal yn dda a bod popeth yn cael ei wneud er mwyn sicrhau contractau/comisiynau mynych.
- Dull systematig o gasglu data ar gyfleoedd newydd – pwy, beth, pryd, faint.
- Proses glir ar gyfer penderfynu p'un a ddylid gwneud cais ai peidio.
- Proses glir ar gyfer sicrhau y caiff ceisiadau o ansawdd uchel eu cyflwyno gyda chefnogaeth lawn y sefydliad.
- Bod ceisiadau yn cael eu prisio'n gywir, gan ddangos y caiff y costau llawn eu hadennill neu fod unrhyw gymhorthdal wedi'i gymeradwyo'n llawn gyda rhesymeg fusnes glir.
- Bod prosiectau yn cael eu rheoli, eu monitro a'u gwerthuso'n dda.

Gall fod yn anodd i sefydliadau llai o faint weithredu'r set eithaf amlwg hon o argymhellion. Fodd bynnag, os caiff y prosesau hyn eu rhoi ar waith yn effeithiol, nid yn unig y bydd y sefydliad mewn

sefyllfa i sicrhau contractau a grantiau statudol, bydd hefyd wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith i'w galluogi i godi arian yn fwy effeithiol gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol sy'n gofyn am ddull gweithredu tebyg iawn.

8.2. Rhoddion gan unigolion

Mae'r data yn dangos bod y sector amgylcheddol ehangach yn cael y rhan fwyaf o'i incwm gan y cyhoedd. Dylai amrywio ffyrdd y gall unigolion roi fod yn uchel ar y rhestr i'w hystyried ar gyfer twf ac arloesi. Yn ôl data ar dueddiadau gan NfpSynergy[14], mae elusennau amgylcheddol ac elusennau cadwraeth natur wedi bod yn dod yn fwyfwy poblogaidd ledled y DU ers 2015. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y sylw cynyddol y mae'r cyfryngau yn ei roi i bryderon amgylcheddol a'r angen i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig newid hinsawdd ar fyrder. Er bod argyfwng COVID-19 wedi peri i bobl droi eu sylw at elusennau ysbytai ac achosion cymunedol mwy lleol, wrth i ni ddod allan o'r pandemig mae'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol mewn sefyllfa dda i godi ymwybyddiaeth eto am faterion amgylcheddol a natur yn fwy penodol.

Yn y maes hwn, sef rhoddion gan unigolion, y mae'r rhan fwyaf o arloesi yn digwydd ar hyn o bryd. Yn hollbwysig, gall rhoddion gan unigolion fod yn anghyfyngedig i raddau helaeth ac, felly, gellir eu gwario ar gostau craidd a gorbenion a gellir eu defnyddio i gynyddu cronfeydd ariannol wrth gefn.

Fodd bynnag, mae hwn yn un o'r meysydd codi arian drutaf i'w sefydlu ac mae'n gofyn am rai o'r dulliau mwy cymhleth a chymorth sylweddol a chydgysylltu mewnol er mwyn iddo fod yn effeithiol. Gall cymryd sawl blwyddyn i raglenni rhoi unigol adennill eu costau a gall enillion uniongyrchol ar fuddsoddiad barhau ymhell islaw 2:1 am flynyddoedd wedyn. Ond, maent yn ffordd wych o nodi a datblygu cydberthnasau â phobl sy'n cefnogi'r achos ac a all ffurfio cydberthynas fwy clòs â'r sefydliad os cânt eu meithrin.

Digidol a defnyddio technolegau newydd

Mae gwerthiannau ar-lein fel % o gyfanswm y gwerthiannau wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y degawd diwethaf yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)[15], ond yn ystod cyfyngiadau symud cyntaf COVID-19 gwelwyd cynnydd sylweddol o ddim ond 19% ym mis Chwefror 2020 i fwy na 30% ym mis Mai. Er bod y cyfyngiadau bellach wedi'u codi, mae'n parhau ar 29% ym mis Ebrill 2021. Mae i hyn oblygiadau amlwg i weithgarwch codi arian wrth i dechnolegau digidol ddod yn normal newydd sy'n golygu ein bod yn gweithredu mewn cymdeithas lle mae llai a llai o ddefnydd yn cael ei wneud o arian parod.

Mewn gwirionedd, dim ond cyflymu'r duedd bresennol i newid i dechnolegau digidol y mae argyfwng COVID-19 wedi'i wneud. Roedd mwy na dwy o bob tair elusen yn y DU eisoes wedi gweld cynnydd mewn rhoddion ar-lein gan unigolion yn ystod 2018 a 2019[16] ond, wedi dweud hynny, rhoddion arian parod a sieciau oedd yn dal i gyfrif am y gyfran fwyaf o'r ffrwd incwm hon[17] bryd hynny. Er mai rhoddion all-lein oedd y ffynhonnell fwyaf o incwm o hyd yn 2019, mae newid pendant

[14] NFP Synergy (2020), *How can charities keep the environment at the top of the post-pandemic agenda?* . Ar gael yn: https://nfpsynergy.net/blog/keeping-the-environment-at-the-top-of-the-post-pandemic-covid-19-agenda-climate-change

[15] SYG (Mai 2021) *Internet sales as a percentage of total retail sales (ratio) (%)* . Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/retailindustry/timeseries/j4mc/drsi

[16] Blackbaud (2019) *The Status of UK Fundraising 2019 Benchmark Report* . Ar gael yn: https://hub.blackbaud.co.uk/npinsights/the-status-of-uk-fundraising-2019-report

[17] Blackbaud (2018) *The Status of UK Fundraising 2018 Benchmark Report* . Ar gael yn: https://hub.blackbaud.co.uk/npinsights/the-status-of-uk-fundraising-2018-benchmark-report

na ddylid ei anwybyddu, a ddaw'n fwy amlwg byth wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Yn ddiddorol ddigon, pan gynhaliodd y Sefydliad Cymorth i Elusennau ei arolwg o elusennau ym mis Mai 2020, dim ond 63% o elusennau a ddywedodd y gallent dderbyn rhyw fath o roddion digidol, a fydd wedi cyfrannu, yn ddiau, at y lleihad mewn incwm a welwyd gan lawer o elusennau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn union fel gydag unrhyw sianel arall, mae gan gyfryngau digidol gryfderau a chyfyngiadau. Gall fod canfyddiad bod denu cefnogwyr newydd drwy gyfryngau digidol yn ddigost neu'n rhad, am fod y costau yn rhai anuniongyrchol (amser staff) neu'n gostau mewn nwyddau (e.e. lwfans Google Adwords) yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o elusennau sy'n ceisio denu cefnogwyr drwy gyfryngau digidol yn canfod nad yw cyfraddau clicio drwodd ar gyfer apeliadau a botymau 'rhoi' yn galonogol a bod cyfraddau trosi rhoddion yn llai calonogol byth. O blith y sianeli cyfryngau cymdeithasol, Facebook sy'n dueddol o fod â'r cyfraddau trosi uchaf os mai defnyddwyr unigol sy'n rhannu yn hytrach na brandiau.

Nid yw'r gallu i dderbyn rhoddion digyffwrdd yn arloesol mwyach ond mae'n hanfodol i bob elusen sy'n codi arian gan y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r defnydd o dechnoleg ddigyffwrdd mewn ffyrdd arloesol yn cynyddu. Er enghraifft, 'Tap Dogs' Blue Cross a gyflwynwyd gan yr elusen ledled y DU yn 2017. Mae'r cŵn, sy'n mynd i ddigwyddiadau codi arian, yn gwisgo cotiau cŵn arbennig â dyfeisiau talu digyffwrdd wedi'u gosod mewn poced. Gall unrhyw un sydd am roi 'batio a thapio'r' ci er mwyn rhoi £2 gan ddefnyddio ei gerdyn neu ddyfais glyfar talu digyffwrdd.

Mae'r cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg newydd arall yn cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI), realiti rhithwir (VR) a thechnolegau digidol eraill. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r technolegau newydd hyn ar hyn o bryd yn y trydydd sector ehangach oherwydd diffyg sgiliau a phrofiad. Mae rhai o'r elusennau mwy o faint yn eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth mewn ffordd arloesol a chysylltu'r cyhoedd â'u buddiolwyr. Er enghraifft, rhwng 2016 a 2019, cynhaliodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ei hymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, *Too Much Information*. Gwnaeth fideo rhithwir 360 gradd er mwyn rhoi cyfle i'r gwyliwr brofi sut beth yw bod yn blentyn awtistig sy'n cael ei gorlwytho â gwybodaeth. Mae'r fideo yn rhoi gwylwyr yn esgidiau Alex, bachgen awtistig 10 oed go iawn, wrth iddo fynd gyda'i fam ar daith i ganolfan siopa. Yn ystod yr ymgyrch aethpwyd â'r fideo at gynulleidfaoedd mewn canolfannau siopa ledled y DU. Mae ar gael o hyd fel lawrlwythiad ap i'w wylio yn Google Cardboard neu gan ddefnyddio pensetiau rhithwir eraill, yn ogystal ag fel fideo 360 gradd ar YouTube[18]. Er nad oedd yn ymgyrch codi arian, dengys sut y gallai technoleg rithwir alluogi darpar gefnogwyr i deimlo bod cyswllt rhyngddyn nhw eu hunain a buddiolwyr yr elusen. Mae technoleg rithwir bellach yn adnodd a ddefnyddir yn aml gan elusennau mwy o faint mewn digwyddiadau codi arian i ymgysylltu â chefnogwyr a chan godwyr arian wyneb yn wyneb (gweler Enghraifft 2 isod[19]).

[18] https://www.youtube.com/watch?v=DgDR_gYk_a8

[19] https://www.youtube.com/watch?v=mUosdCQsMkM

ENGHRAIFFT 2: Ffilm UNICEF, *Clouds over Sidra* (2015), fel rhan o brosiect Realiti Rhithwir y Cenhedloedd Unedig

Profodd UNICEF ei ffilm rithwir gyntaf, *Clouds Over Sidra*, yn helaeth er mwyn mesur effeithiolrwydd realiti rhithwir fel adnodd codi arian. Mae'r ffilm, a ddangoswyd am y tro cyntaf yn 2015, yn adrodd hanes merch 12 oed sy'n byw mewn gwersyll i ffoaduriaid yn Syria. Mae'r ffilm yn ei dilyn i'r ysgol, i'w phabell dros dro a hyd yn oed i'r maes pêl-droed. Mae wedi'i defnyddio'n eang i hyrwyddo eiriolaeth y Cenhedloedd Unedig dros yr argyfwng yn Syria.Fe'i dangoswyd mewn cyfarfod lefel uchel i roddwyr cyn y Drydedd Apêl Ddyngarol Ryngwladol dros Syria yn Kuwait ym mis Mawrth 2015, a gododd 3.8 biliwn o ddoleri'r UD yn y pen draw. Mae wedi'i chyfieithu i 15 o ieithoedd gwahanol ac wedi'i dangos mewn 40 o wledydd gwahanol gan godwyr arian wyneb yn wyneb UNICEF. Dengys y canlyniadau fod technoleg rithwir wedi cael effaith sylweddol ar sawl lefel wahanol (yn enwedig ar weithgarwch codi arian wyneb yn wyneb). Maent yn nodi, o ganlyniad i ddefnyddio technoleg rithwir:

Fod pobl yn fwy tueddol o stopio ac ymgysylltu;
Bod pobl yn fwy tueddol o roi ar ôl ymgysylltu;
Bod gwerth cyfartalog rhoddion wedi cynyddu
Bod modd defnyddio lleoliadau codi arian gwell.

Ers y ffilm gyntaf hon gan UNICEF, mae prosiect Realiti Rhithwir y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys ffilmiau gan UNDP, UNFPA, Sefydliad y Cenhedloedd Unedig, UNHCR, UNOCHA, UN Women a MINUJUSTH-UN Haiti, pob un â'r nod o ysbrydoli gwylwyr tuag at fwy o empathi, gweithredu a newid cymdeithasol cadarnhaol.

Daw'r llun o: http://unvr.sdgactioncampaign.org/get-involved/donate/#.YOyv7uhKg2w

Mae deallusrwydd artiffisial hefyd yn cael ei ddefnyddio fwyfwy mewn ffyrdd arloesol i gefnogi gweithgarwch codi arian (gweler Enghraifft 3 isod[20]). Fodd bynnag, unwaith eto, dim ond yr elusennau mwy o faint a all fanteisio i'r eithaf arno, mewn gwirionedd. Mae deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol yn gofyn am setiau data mawr er mwyn dysgu patrymau ac ymddygiadau a llunio modelau yn seiliedig ar hyn. Er enghraifft, mae Parkinson's UK a Prostate Cancer UK wedi llwyddo i gynyddu eu refeniw a chyfraddau ymateb drwy brofi technegau codi arian sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ymgyrchoedd post uniongyrchol[21]. Fodd bynnag, mae eu setiau data yn enfawr o gymharu â llawer o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Mae sicrhau bod gennych ddigon o ddata a'u bod mewn cyflwr y gellir eu defnyddio yn allweddol i lwyddiant yn y maes hwn ac mae'n debygol o achosi problemau i sefydliadau llai o faint nad oes ganddynt yr adnoddau mewnol i hwyluso hyn.

Enghraifft 3: Radio Global a Say it Now (2020-2021)

Y llynedd, cydweithiodd Global (cwmni radio mwyaf Ewrop) â Say It Now ar brosiect ymchwil a ariannwyd gan Innovate UK er mwyn ymchwilio i effeithiolrwydd rhoi i elusennau a hwylusir gan gynorthwywyr llais ar seinyddion clyfar (Amazon Alexa). Cynhaliodd y prosiect ymgyrchoedd hysbysebu rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021 gyda NSPCC, WWF a Comic Relief. Gosodwyd hysbysebion sain wedi'u targedu yn benodol ar ddyfeisiau sy'n cynnal cynorthwyydd llais, gyda'r gwrandawyr yn cael yr opsiwn i ddysgu mwy am yr elusen unigol neu roi ar unwaith â chyfarwyddyd geiriol syml, ar yr amod bod y cynorthwyydd llais wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â gwasanaeth talu, megis Amazon Pay. Nid yw canlyniadau'r ymgyrch wedi'u cyhoeddi eto ond mae'r enghraifft yn dangos bod yna elusennau sy'n arwain y ffordd ym maes arloesi digidol.

Codi arian drwy gymynroddion

Mae cymynroddion (rhoddion mewn ewyllysiau) yn chwarae rôl bwysig yn sylfaen incwm llawer o elusennau ac, fel y nodwyd uchod, gall codi arian drwy gymynroddion sicrhau enillion sylweddol ar fuddsoddiad. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru, yn enwedig y cyrff llai o faint. Yn aml, mae'n fwy anodd i elusennau llai o faint gyflwyno eu hachos dros gael cymorth ariannol am fod darparwr gymynwyr yn aml yn credu mai gyda rhai o'r elusennau mwy o faint sy'n llai tebygol o roi'r gorau i weithredu y bydd eu rhodd 'fwyaf diogel'.

Mae data helaeth Smee a Ford ar roi cymynroddion yn nodi bod incwm o gymynroddion yn 2019 wedi cyrraedd bron £3bn, sef y swm mwyaf a gofnodwyd erioed, a bod 14% o'r boblogaeth yn gadael cymynrodd yn eu hewyllys.[22] Er mai 80 oed yw'r oedran cyfartalog ar gyfer gwneud ewyllys olaf yn achos menywod, a 77 oed yn achos dynion, mae pobl yn aml yn dechrau gwneud eu hewyllysiau cyntaf yn llawer iau na hyn ac, felly, gall cynulleidfaoedd targed fod yn iau na'r disgwyl. Mae adroddiad Smee a Ford yn nodi bod gan elusennau amgylcheddol, fel arfer, ganran uwch o gefnogwyr iau sy'n gadael rhodd yn eu hewyllys o gymharu ag achosion eraill.

Ni ddylai sefydliad dybio y bydd yn cael unrhyw enillion am o leiaf 5-10 mlynedd o'r dyddiad y mae'n dechrau hyrwyddo neges am gymynroddion am fod 6.7 mlynedd, ar gyfartaledd, rhwng yr adeg y mae pobl yn gwneud eu hewyllys olaf a'u dyddiad marw.

[20] https://www.youtube.com/watch?v=v668P95j-lU

[21] https://fundraising.co.uk/2021/03/05/ai-boosts-charities-direct-mail-campaign-performance/

[22] Smee a Ford (2020) *Legacy trends report 2020*. Ar gael yn: https://smeeandford.com/whitepaper/post?pitem=smee-ford-legacy-trends-report-2020

Fel y gwelsom yn achos meysydd codi arian eraill, mae arloesi o ran codi arian drwy gymynroddion yn llawer mwy cyffredin yn yr elusennau cenedlaethol mwy o faint sydd â'r adnoddau a'r arbenigedd (gweler Enghraifft 4 isod). Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na all sefydliadu llai o faint, fel llawer o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru, ddechrau integreiddio gweithgarwch marchnata cymynroddion yn eu sianeli cyfathrebu arferol heb orfod defnyddio fawr ddim adnoddau ychwanegol, os o gwbl.

ENGHRAIFFT 4: Ymgyrch *Give People Change* Shelter

Y llynedd, cynhaliodd Shelter ymgyrch i gynyddu nifer yr addunedau cymynrodd gan gefnogwyr hirsefydlog. Roedd Give People Change* yn ymgyrch drawslwyfan a lwyddodd i sicrhau addunedau cymynrodd gwerth £1 filiwn. Hyrwyddwyd yr ymgyrch ar lwyfannau digidol, mewn post uniongyrchol ac yn ei siopau elusennol. Cyrhaeddodd yr elusen 95,000 o bobl drwy ei llwyfannau digidol ac ymwelodd 895 o ddefnyddwyr unigryw â'i thudalen lanio. Ar y cyfan, sicrhaodd yr ymgyrch enillion o 50:1 ar y buddsoddiad.

Daw'r lluniau o: SOFII

*Fel y'i dangosir ar SOFII[23]

[23] SOFII (Showcase of fundraising innovation and inspiration): https://sofii.org/case-study/shelter-give-people-change

Gallai codi arian drwy gymynroddion fod yn faes twf posibl i gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru am fod unigolion yn awyddus i gael effaith tymor hwy ar ran eu plant a'u hwyrion a'u hwyresau.

8.3. Ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol

Grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r incwm i lawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint ledled y DU. Yn anffodus, cymharol brin yw'r ymddiriedolaethau a'r sefydliadau sy'n darparu costau craidd ac mae'r mwyafrif helaeth yn canolbwyntio ar roi grantiau i brosiectau a all gyflawni eu blaenoriaethau mewn meysydd penodol o ddiddordeb.

Mae sefydliad yn fwy tebygol o lwyddo i sicrhau incwm grant gan sefydliadau mwy o faint os bydd yn datblygu prosiectau neu raglenni gan gadw blaenoriaethau'r cyllidwyr mewn cof ac yn ystyried yn ofalus y ffordd orau o gyflwyno'r achos dros gael cymorth ariannol wrth wneud cais. Yn ystod y broses o'i gynllunio, gorau oll os gellir llunio, lleoli neu addasu prosiect mewn ffordd sy'n debygol o apelio at gyllidwyr. Yn y sector amgylcheddol, mae hyn yn aml yn gofyn am gydweithio â chyrff anllywodraethol eraill. Mae cydweithio rhwng elusennau rhywogaeth-benodol megis partneriaeth Rethink Nature wedi galluogi'r partneriaid i ddefnyddio proses grant y Gronfa Dreftadaeth i gael arian cyfatebol gan ymddiriedolaethau a sefydliadau yn ogystal â ffynonellau statudol.

Mae'n anodd bod yn arloesol o ran codi arian gan ymddiriedolaethau ond, weithiau, y cyllidwyr eu hunain sy'n arloesi. Yn ystod argyfwng COVID-19, mae cyllidwyr wedi cydweithio'n agos, gan rannu eu hadnoddau er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o effaith. Un enghraifft yn unig yw'r 'Green Match Fund' a drefnwyd yn gynharach eleni (gweler Enghraifft 5 isod).

ENGHRAIFFT 5: Cyllidwyr arloesol

Mae llawer o gyllidwyr yn cydnabod yr anawsterau sylweddol y mae elusennau yn eu hwynebu wrth gynhyrchu incwm newydd ac maent yn cymryd camau eu hunain i ddod o hyd i ffyrdd newydd o roi, gan gymell eraill i roi ar yr un pryd. Er enghraifft, eleni cynhaliwyd ymgyrch codi arian amgylcheddol gydgysylltiedig fwyaf y DU. Nod y 'Green Match Fund' a gynhaliwyd gan 'The Big Give' oedd codi mwy na £1 filiwn i elusennau amgylcheddol ac, erbyn diwedd yr ymgyrch, roedd wedi codi £1,760,769, gan gynnwys Cymorth Rhodd. Darparodd 'Prif' gyllidwyr, a nodwyd gan 'The Big Give' a Rhwydwaith y Cyllidwyr Amgylcheddol, symiau o arian a oedd yn cytateb i roddion a gyflwynwyd i elusennau a gymerodd ran yr ymgyrch. Ymhlith y cyllidwyr roedd Sefydliad Reed, Sefydliad Garfield Weston, Ymddiriedolaeth Elusennol Oglesby, Michael O'Mara Books, Sefydliad John Spedan Lewis a Sefydliad EQ. Cymerodd 112 o elusennau ran yn yr ymgyrch, gyda 106 ohonynt yn cyflawni eu targedau ar gyfer codi arian. Denodd fwy nag 11,000 o bobl o 59 o wledydd gwahanol a roddodd symiau o arian gwerth £74, ar gyfartaledd. Penderfynodd 'The Big Give' lansio'r ymgyrch mewn ymateb i'w arolwg ym mis Tachwedd 2020 lle nododd bron i ddwy o bob tair elusen amgylcheddol (63%) fod eu hincwm wedi gostwng yn 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19 a lle roedd 1 o bob 5 elusen amgylcheddol yn bwriadu cwtogi ar y gwasanaethau roeddent yn eu darparu o ganlyniad i hynny.

Dylid hefyd ystyried sefydlu trefniadau cydweithredu â chyrff yn y trydydd sector sydd y tu allan i'r sector amgylcheddol fel ffordd o arloesi ym maes codi arian gan ymddiriedolaethau. Er enghraifft, mae gan Amgueddfa Cymru hanes rhagorol o gynnwys gwirfoddolwyr o grwpiau difreintiedig a phartneriaid datblygu cymunedol lleol megis Action in Ely and Caerau a'r Wallich. Gellir dadlau bod y partneriaethau hyn wedi helpu i ddenu cyllidwyr at apêl fawr Sain Ffagan a'u bod hwythau wedi deillio o brosiect mawr a ariannwyd gan ymddiriedolaeth (sef prosiect 'Our Museum' Sefydliad Paul Hamlyn). Mae sector y celfyddydau hefyd wedi dysgu nifer o wersi am bwysigrwydd sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned yn ddilys ac y bwriedir iddo fod yn hirdymor er mwyn i'r trefniadau cydweithredu lwyddo.

8.4. Cymorth corfforaethol

Mae sawl ffurf wahanol ar weithgarwch codi arian gan fusnesau, o roddion arian parod untro neu noddi prosiectau penodol i bartneriaethau tymor hwy neu hyd yn oed roddion mewn nwyddau. Nid oes fawr ddim tystiolaeth i awgrymu y gallai cymorth corfforaethol fod yn rhan fawr o incwm o weithgarwch codi arian, yn arbennig i gyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid oes gan Gymru nifer mawr o bencadlysoedd cwmnïau a restrir ar Fynegai FTSE 100. Mae brandiau mawr yn dueddol o gael hanes o fuddsoddi yn y sector iechyd ac, yn bennaf, mewn mentrau â phroffil uchel iawn. Er enghraifft, i Sefydliad Francis Crick yn Llundain y cyflwynwyd un o'r rhoddion corfforaethol mwyaf yn y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhoddodd HSBC $25

miliwn i Cancer Research[24] tuag at gostau cyfalaf cyffredinol y prosiect. Fodd bynnag, nid yw'n syndod mai prin yw'r enghreifftiau o gymorth corfforaethol ar y lefel hon.

Er ei bod yn bosibl nad yw codi arian o ffynonellau corfforaethol yn ffurfio cyfran fawr o'r incwm a gynhyrchir gan weithgarwch codi arian, o ystyried yr argyfwng hinsawdd a'r holl sylw y mae'n ei gael yn y cyfryngau, mae'n rhesymol tybio y bydd yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael lle mwy blaenllaw mewn polisïau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn y dyfodol. Dylid nodi ei bod yn hanfodol sicrhau bod unrhyw roddion a geir o gorff corfforedig yn cyd-fynd â'ch gwerthoedd fel sefydliad neu, o leiaf, nad ydynt yn gwrthdaro â nhw (gweler Enghraifft 7 isod). Yn ddelfrydol, dylai polisi fod ar waith cyn ceisio cymorth corfforaethol. Gall rheolau ynglŷn â TAW a gymhwysir at weithgarwch codi arian corfforaethol a nawdd fod yn gymhleth ac, felly, mae hefyd yn bwysig deall y rhain cyn ymrwymo i unrhyw bartneriaethau.

Rhoddion corfforaethol

Mae rhoddion corfforaethol yn mynd yn fwyfwy prin am mai nhw yw'r ffordd ddrutaf i gwmni gefnogi elusen (er eu bod yn anhrethadwy). Mae llawer o gwmnïau mwy o faint yn ffurfio eu Hymddiriedolaeth neu eu Sefydliad eu hunain, sydd â Bwrdd ar wahân a phroses gwneud cais debyg i broses gwneud cais ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol eraill yn aml. Mae llawer o Sefydliadau Corfforaethol yn canolbwyntio ar achosion cymunedol sy'n agos i'w ardal weithredu e.e. mae Ymddiriedolaeth Ford Britain yn ffafrio prosiectau yn yr ardaloedd o amgylch eu ffatrïoedd ac mae'n well gan Sefydliad Greggs gefnogi cymunedau yng ngogledd-ddwyrain Lloegr lle y dechreuodd y cwmni.

Partneriaethau corfforaethol

Yn aml, mae partneriaethau corfforaethol yn rhai penodol iawn sy'n seiliedig ar anghenion y busnes a'r elusen. I'r busnes, gallai hyn olygu nodau strategol, megis creu mynediad at gynulleidfaoedd newydd, gwella eu henw da neu gynyddu teyrngarwch cyflogeion. Gallant fod yn werthfawr iawn os cânt eu cyflawni'n dda. Mae partneriaethau yn aml yn cynnwys gweithgarwch codi arian ar raddfa fawr gan staff (e.e. digwyddiadau herio), rhoi drwy'r gyflogres, gwirfoddoli ac ymweliadau â safleoedd.

Weithiau, caiff y partneriaethau hyn eu hysbysebu fel partneriaethau Elusen y Flwyddyn. Maent yn ddiarhebol o gystadleuol ac maent yn gweithio'n dda i elusennau mawr sydd â llawer o adnoddau. Nid yw hynny'n golygu na ddylai elusennau llai o faint fod yn ystyried y mathau hyn o ddulliau gweithredu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyrff corfforedig wedi symud i ffwrdd oddi wrth y dull 'partner un elusen' ac, yn lle hynny, maent yn cefnogi sawl elusen sy'n cyd-fynd â nodau strategol gwahanol. Mae hyn yn cynnig cyfle i elusennau llai o faint ddenu sylw busnesau mawr. Fodd bynnag, mae angen i elusennau bach fod yn realistig ynglŷn â'u gallu i gyflawni partneriaethau o'r fath. Pan benderfynir ar bartneriaethau corfforaethol neu gynlluniau Elusen y Flwyddyn yn seiliedig ar bleidlais gan y staff, fel sy'n digwydd yn aml mewn cwmnïau cenedlaethol mawr, fel arfer yr elusennau â brandiau mwy sy'n llwyddiannus.

Ceir sawl enghraifft o bartneriaethau strategol hirdymor rhwng sefydliadau amgylcheddol a phartneriaid corfforaethol. Er enghraifft, mae HSBC wedi bod yn bartner i Sefydliad Earthwatch ers 2002, gan ddarparu arbenigedd ym meysydd arweinyddiaeth a dysgu ym maes cynaliadwyedd, ymgysylltu â chyflogeion ac ymchwil wyddonol. Mae Earthwatch wedi cael mwy na £3 miliwn gan

[24] https://www.hsbc.com/media/media-releases/2015/cancer-research-uk-and-hsbc-join-forces-in-usd25-million-partnership

HSBC yn ystod y pum mlynedd diwethaf er mwyn iddo gyflawni'r bartneriaeth hon. Yn fwy diweddar, mae HSBC UK wedi rhoi £4 miliwn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol[25] er mwyn ariannu'r gwaith o blannu dwy filiwn o goed dros 4 blynedd, sef y rhodd amgylcheddol fwyaf o'i bath a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae mwy i bartneriaethau corfforaethol strategol na dim ond yr incwm o weithgarwch codi arian. Mae llawer o enghreifftiau gwych o elusennau yn cydweithio â chorff corfforedig mawr i gael arian a chyflawni eu hamcanion elusennol. Er enghraifft, partneriaeth elusennol bum mlynedd Tesco â Canser Research UK, British Heart Foundation a Diabetes UK. Mae'r ymgyrch, a elwir yn *Helping you to live healthier*, yn canolbwyntio ar wella iechyd siopwyr a chyflogeion Tesco. Bydd yn datblygu rhaglen iechyd yn y gweithle ac yn defnyddio ei ymgyrchoedd cyfathrebu i gefnogi negeseuon ynglŷn ag iechyd a'i ddata ar werthiannau i helpu i ddatblygu polisi iechyd, yn ogystal â chodi arian iddynt. Ceir llawer o enghreifftiau yn y sector amgylcheddol hefyd, gan gynnwys rhai sy'n cynnwys sawl partner:

Nawdd

ENGHRAIFFT 6: WWF – The Rivers Trust – Coca-Cola (2012-presennol)

Dechreuodd WWF, The Rivers Trust a Norfolk Rivers Trust bartneriaeth â Coca-Cola er mwyn adfer Afon Nar i gyflwr da rhwng 2012 a 2015. Mae dalgylch Afon Nar yn Norfolk yn ardal lle y tyfir llawer o fetys siwgr – sy'n mynd i mewn i ddiodydd Coca-Cola. Gweithiodd y bartneriaeth gyda ffermwyr er mwyn gwella arferion amaethyddol dros 2000 erw a lleihau llygredd a allai fel arall fod wedi gollwng i'r afon.Drwy'r prosiect hwn, gwnaethant hefyd sythu a dyfnhau 1km o sianel yn yr afon gan ei hadfer i'w chyflwr naturiol. Mae'r bartneriaeth yn helpu Coca-Cola i gyflawni ei hymrwymiad ‘Ailgyflenwi’ byd-eang i ddychwelyd yr un faint o ddŵr ag y mae'n ei ddefnyddio wrth gynhyrchu ei ddiodydd i gymunedau a natur. Yn 2016, dechreuodd y bartneriaeth ar brosiect newydd gyda chyllid gan yr UE, o'r enw WaterLIFE, yn East Anglia y tro hwn, yn nalgylch Cam ac Ely Ouse a Dalgylch Broadland Rivers. Mae'r prosiect wedi rhoi ymyriadau ar waith ar lefel gwlad er mwyn lleihau silt ac atal llygredd rhag gollwng i'r

Mae enghreifftiau o gwmnïau sy'n noddi'r trydydd sector yng Nghymru ar sawl lefel yn cynnwys Cymdeithas Adeiladu Principality, gwahanol gwmnïau yn y sector ynni, cwmnïau cyfleustodau, cymdeithasau tai megis Grŵp Cynefin a Cartrefi Conwy a darparwyr addysg uwch. Er mwyn cael mynediad i farchnadoedd nawdd, mae'n hanfodol deall cynulleidfaoedd a sut maent yn ddeniadol i ddarpar noddwyr a beth y gellir ei gynnig yn gyfnewid am eu cefnogaeth, er enghraifft, marchnata ar eu rhan neu fynediad uniongyrchol at gynulleidfaoedd ar gyfer nawdd neu hawliau enwi i adeilad neu raglen ar gyfer rhoddion.

Ar ben arall y raddfa, mae'r cymorth a roddir gan fusnesau bach i elusennau yng Nghymru yn tueddu i ganolbwyntio ar chwaraeon ar lawr gwlad megis noddi crysau ac achosion lleol iawn. Gallai fod potensial i gyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint gael rhai symiau bach o nawdd gan fusnesau twristiaeth lleol lle y ceir synergeddau. Yn flaenorol, roedd canghennau banciau yn sicr o

[25] https://www.nationaltrust.org.uk/features/record-hsbc-uk-donation-to-enable-mass-tree-planting

ddarparu nawdd ar gyfer achosion lleol ond maent yn prysur ddiflannu. Fodd bynnag, mae rhywfaint o weithgarwch o hyd yn y sector bancio a'r diwydiant yswiriant.

Cynlluniau aelodaeth gorfforaethol

Mae cynlluniau 'aelodaeth' gorfforaethol sy'n cynnig buddion wedi'u diffinio am bris blynyddol sefydlog yn aml yn ffordd dda o recriwtio cefnogwyr corfforaethol ar lefel isel. Er enghraifft, mae gan Buglife, sy'n aelod o Gyswllt Amgylchedd Cymru, 35 o aelodau yn ei gynllun aelodaeth 'Buddsoddwyr Corfforaethol mewn Natur' sydd â lefelau yn amrywio o £250 y flwyddyn i £10,000 y flwyddyn (ar hyn o bryd mae ganddo dri sydd wedi'u rhestru ar y lefel uchaf hon)[26]. Mae buddion wedi'u diffinio yn cynnwys y defnydd wedi'i negodi o'i logo, cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus, gwahoddiad i ddigwyddiadau, diwrnod adeiladu tîm a sgyrsiau â staff. Yn aml, mae gan lawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol fuddion unigryw a all fod yn ddeniadol iawn i fusnesau. Bydd cynlluniau o'r fath yn aml yn cynnig cyfle i elusen 'gael ei thraed o dan y bwrdd' ac yn arwain at gynhyrchu rhagor o incwm wrth i'r gydberthynas ddatblygu, nes ei bod yn fwy tebyg i bartneriaeth gorfforaethol.

ENGHRAIFFT 7: Cyfeillion y Ddaear ac Octopus Energy

Yn 2019, ffurfiodd Cyfeillion y Ddaear bartneriaeth ag Octopus Energy fel cyflenwr ynni cymeradwy i'w gefnogwyr. Roedd yn credu y gallai Octopus chwarae rôl allweddol o ran hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn y DU. Fodd bynnag, lai na blwyddyn yn ddiweddarach tynnodd yn ôl o'r bartneriaeth ar ôl i Octopus dderbyn buddsoddiad gan gwmni ynni yn Awstralia a oedd yn ymwneud â chynhyrchu ynni drwy losgi glo a ffracio – sy'n gwrthdaro'n uniongyrchol â gweledigaeth a chenhadaeth Cyfeillion y Ddaear.

8.5. Gwaddolion

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar weithgarwch codi arian ar gyfer gwaddolion yn y DU ac nid ydynt yn boblogaidd gyda phob rhoddwr yn y DU. Oherwydd yr enillion cymharol fach a roddir ar swm y cyfalaf, byddai'n well gan roddwyr weld eu rhodd ar waith nawr, yn hytrach nag wedi'i chloi mewn cronfa hirdymor. Mae'r safbwynt hwn yn newid yn araf ond rydym yn dal i fod ymhell i ffwrdd o'r dull gweithredu a fabwysiedir yn yr Unol Daleithiau lle mae gwaddolion yn llawer mwy poblogaidd ym mhob sector. Er nad oes unrhyw arian cyhoeddus ar gael ar hyn o bryd a allai gefnogi gwaddol, caiff rhai enghreifftiau o arian y Loteri ei ddefnyddio at y diben hwn a rhywfaint o fuddsoddiad ar raddfa fach gan Lywodraeth Cymru[27]. Os bydd unrhyw gorff anllywodraethol amgylcheddol yn awyddus i ddilyn y llwybr hwn, mae'n debygol y bydd angen i'r rhan fwyaf o'r cyfalaf ddod o'r sector preifat.

Mae rhai o'r gwaddolion mwyaf yn y DU, megis y rhai a ddelir gan Brifysgol Rhydychen a Phrifysgol Caergrawnt, yn aml yn cofnodi enillion sy'n fwy na 10%. Dros 10 mlynedd hyd at 2019, cynhyrchodd Caergrawnt enillion blynyddol o 10% a chynhyrchodd Rhydychen enillion blynyddol o 9%. Fodd

[26] https://www.buglife.org.uk/get-involved/corporate-partnerships/

[27] Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth (Cymru) a Gwaddolion Catalydd ar gyfer Treftadaeth

bynnag, mae maint y gwaddolion hyn yn golygu bod lefel a chysondeb enillion yn gymharol uchel o gymharu â chronfeydd llai o faint. Gall cyfrifo ffigurau ar sail flynyddol hefyd guddio amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn a allai fod yn annerbyniol i gyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint y mae angen enillion dibynadwy arnynt i weithredu (er enghraifft, cofnododd cronfa waddol Prifysgol Caergrawnt sy'n werth £3.2bn enillion ar fuddsoddiad a oedd yn cyfateb i 8.8% ar gyfer y 12 mis hyd at 30 Mehefin 2018 – ychydig o dan hanner ei henillion o 18.8% ar gyfer y 12 mis blaenorol).

Er bod manteision cael enillion blynyddol o waddol yn amlwg, mae nifer o anfanteision tra hysbys. Er enghraifft, gall fod yn anodd cadw gwerth gwirioneddol y cyfalaf ac, yn aml, nid yw incwm yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Gall elusennau fod yn codi arian dim ond er mwyn cadw gwerth eu gwaddolion neu'n defnyddio llawer iawn o egni i'w cynnal. Mae gwaddolion parhaol hefyd yn ddiarhebol o anhyblyg ac yn feichus i'w gweinyddu.
Yn y pen draw, byddai angen i gyrff anllywodraethol amgylcheddol asesu eu hawydd i fentro.

O ran sicrhau'r buddsoddiad cychwynnol i greu cronfa, mae ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn tueddu i beidio â rhoi grantiau i waddolion a, hyd y gwyddys, nid yw busnesau yn cefnogi apeliadau i sefydlu gwaddolion yn y DU chwaith. Er iddi gael ei nodi uchod bod y rhan fwyaf o unigolion yn rhoddwyr anfodlon i'r math hwn o apêl, gall cyrff anllywodraethol amgylcheddol fod mewn sefyllfa dda i feithrin nifer bach o roddwyr mawr sy'n credu bod gwneud buddsoddiadau hirdymor yn beth da. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau i wneud ymchwil i nodi darpar roddwyr, eu meithrin a sicrhau eu rhodd, heb sôn am y stiwardiaeth barhaus a ddisgwylid.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cynhaliwyd nifer bach o ymgyrchoedd gwaddolion penodol, drwy raglen Catalydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n helpu i godi'r proffil a'r angen cyhoeddus am y math hwn o fuddsoddiad. Roedd ei rhaglen yn gymharol lwyddiannus o ran cyflawni ei thargedau ar gyfer codi arian ond roedd y mwyafrif helaeth o'r sefydliadau a gymerodd ran ynddi yn rhai mawr iawn. Yn y cylch cyntaf a gwblhawyd yn 2017, cododd 31 o sefydliadau sy'n cael grantiau gyfanswm o £53.3 miliwn gan y sector preifat. Mae'n bwysig nodi bod yr apeliadau llwyddiannus hyn wedi'u cynnal gan dimau codi arian hirsefydlog sydd â chryn dipyn o adnoddau.[28]

Petai cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn awyddus i ystyried sefydlu gwaddol, byddai angen rhagor o ymchwil a chyngor arbenigol er mwyn asesu dichonoldeb sicrhau cefnogaeth i apêl o'r fath.

8.6. Incwm masnachol

Mae ceisio cynhyrchu incwm masnachol yn rhywbeth y mae llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol eisoes yn ei wneud yn llwyddiannus iawn (gweler Enghraifft 8 isod). Mae hyn yn cynnwys cynnig gwasanaethau ymgynghori neu hyfforddiant; rhedeg safle manwerthu neu werthu cynhyrchion ar-lein; rhedeg caffi; cynnig lleoedd i'w rhentu; neu gael incwm o gyfleusterau parcio ceir. Gall incwm masnachol fod yn fuddiol iawn am ei fod yn anghyfyngedig ac, felly, gellir ei ddefnyddio i dalu costau craidd hanfodol.

Wrth ystyried ymchwilio i ffyrdd o gynhyrchu incwm o weithgareddau masnachol, bydd angen i sefydliadau ystyried yn ofalus pa asedau sydd ganddynt i'w cynnig. Gall y rhain fod yn asedau diriaethol megis eiddo neu le neu'n asedau anniriaethol megis arbenigedd staff neu frand yr elusen.

[28] Canolfan Dyngarwch, Prifysgol Caint (2017) *Evaluation of the Catalyst: Endowment Grant Programme* . Ar gael yn: https://www.heritagefund.org.uk/sites/default/files/media/publications/endowments_evaluation_report-accessible_v2.pdf

Mae hefyd angen ystyried a yw'r rhoddwr yn cyd-fynd â chenhadaeth yr elusen, yr enillion ariannol posibl ac a ellir cyflawni gweithgaredd masnachol os yw'n golygu y caiff staff eu tynnu i ffwrdd oddi wrth eu blaenoriaethau o ddydd i ddydd.

Mae hefyd yn debygol, os bydd sefydliad yn dechrau ar weithgaredd masnachol newydd, y gallai fod costau ymlaen llaw a allai olygu benthyg arian neu drefnu benthyciadau. Bydd angen cydnabod hefyd y gallai gymryd sawl blwyddyn i'r sefydliad wneud elw.

Yn y pen draw, bydd angen i'r sefydliad fod yn barod i fentro wrth ddechrau ar fenter newydd. Nododd adroddiad y Funding Centre yn 2020 fod rhai enghreifftiau da o sefydliadau a oedd yn arloesol ac a oedd ag agwedd gadarnhaol at reoli risg ac annog creadigrwydd. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad cyffredinol bod sefydliadau allweddol yn y sector wedi bod yn canolbwyntio ar oroesi yn y byrdymor ac na allent neilltuo amser i gynllunio ar gyfer y tymor hwy ac mai dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae dechrau ar fenter newydd yn gofyn am neilltuo cryn dipyn o amser i ymgymryd â cham 'dichonoldeb' er mwyn asesu cynulleidfaoedd targed y gweithgaredd a maint y farchnad sydd ar gael.

Mae cynnig cyrsiau hyfforddi yn ddull gweithredu masnachol poblogaidd ac yn un a ddefnyddir gan lawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol, yn enwedig y rhai ag arbenigedd penodol mewn perthynas â rhywogaeth benodol, er enghraifft. Mae'n golygu y gall elusennau godi ymwybyddiaeth o'u gweithgareddau ac, ar yr un pryd, gynhyrchu incwm anghyfyngedig.

Gall rhedeg caffi neu siop ar y safle fod yn ffynhonnell werthfawr o incwm ac yn ffordd o gyrraedd cynulleidfa newydd a chynyddu nifer yr ymwelwyr, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i gefnogwyr wirfoddoli.

ENGHRAIFFT 8: Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn gweithredu is-gwmni masnachu llwyddiannus iawn, a wnaeth elw net gwerth £453,884 yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Roedd ei hincwm cyffredinol o weithgareddau masnachu, gan gynnwys y swm hwn, yn fwy na £700,000 ac roedd yn cyfrif am 30% o gyfanswm ei hincwm. Gall yr Ymddiriedolaeth gynnig llety gwyliau ar warchodfeydd natur a gwasanaethau arlwyo i ymwelwyr ac mae'n gwerthu nwyddau a brynir i mewn.

8.7. Dull cyllido sy'n seiliedig ar fuddsoddi

Mae'n amlwg nad yw cyllid statudol na dyngarwch yn ddigon i ddiwallu lefel yr angen yn y sector. Fodd bynnag, ar wahân i wasanaethau ymgynghori a thwristiaeth, prin yw'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol sydd wedi mynd ati i gymryd rhan mewn dulliau cyllido mwy arloesol. Mae adroddiad diweddar[29] a gymeradwywyd gan yr RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn nodi y bydd methu â llunio fframwaith cydlynol ar gyfer cyllido'r gwaith o adfer natur yn y DU yn sicrhau y bydd y

[29] Broadway Initiative, Green Finance Institute and Finance Earth (2020) *Financing UK Nature Recovery* . Ar gael yn: https://financingnaturerecovery.uk/proposal

ddibyniaeth ar arian cyhoeddus yn parhau yn yr hirdymor. Yn ddiau, caiff argyfwng COVID-19 effeithiau hirbarhaol ar gyllid cyhoeddus ac, felly, mae gwir angen dod o hyd i atebion cyllido, a hynny ar fyrder.

Cydnabu'r Alban yr angen hwn cyn y pandemig a daeth cynghrair o sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ("Scottish Conservation Finance Pioneers") at ei gilydd er mwyn ateb Her £1 Biliwn Prosiect Cyllid Cadwraeth yr Alban. O ganlyniad, cafodd map llwybr tuag at ddatgloi buddsoddiad newydd gwerth £1 biliwn ar gyfer cadwraeth natur yn yr Alban ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yr Alban ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA)[30]. Mae'n nodi naw cyfle buddsoddi i gyfrannu at adferiad gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys modelau y bwriedir iddynt ysgogi buddsoddi yng nghyfalaf naturiol yr Alban drwy roi enillion ariannol i fuddsoddwyr. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys Cronfa Arloesi Cyfalaf Naturiol, Cronfa Forol a Bond Natur-Hinsawdd. Mae Cymru bellach wedi dechrau dilyn llwybr tebyg gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff anllywodraethol amgylcheddol, yn dod at ei gilydd i gyd-gynhyrchu fframwaith cyllido arloesol. Nod y 'Grŵp Cyllido Arloesol' hwn a'i waith yw cynyddu'r cyllid sydd ar gael yn gynaliadwy er mwyn helpu i sicrhau'r newid trawsffurfiol sydd ei angen i wella bioamrywiaeth ledled Cymru, yn enwedig drwy gyllido cadwraeth. Ymhen amser, bydd y grŵp hwn yn gwneud argymhellion a fydd yn debyg iawn, gellid tybio, i Brosiect Cyllid Cadwraeth yr Alban.

Mae cyllido arloesol ar gyfer cadwraeth wedi bod yn bwnc trafod ers dau ddegawd ac mae sawl dull gweithredu newydd wedi'u datblygu, megis Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES) a gwahanol gynlluniau gwrthbwyso. Yn fwyfwy mae buddsoddiad preifat yn cael ei ystyried fel opsiwn i gyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint ledled y byd a all gyflawni ar raddfa fawr a sicrhau'r enillion sydd eu hangen i'w wneud yn opsiwn deniadol i fuddsoddwyr. Mae'n amlwg bod galw am fuddsoddi sy'n gymdeithasol gyfrifol ac yn canolbwyntio ar gael effaith. Mae adroddiad gan yr RSPB[31] ar gau'r bwlch cyllid yn nodi bod digon o arian ar gael yn ogystal â buddsoddwyr sydd â diddordeb ond bod diffyg prosiectau â chynigion 'cyllid-barod' y gellir buddsoddi ynddynt

Yn y DU, mae'r RSPB wedi ymchwilio i nifer o opsiynau gwahanol i gynhyrchu incwm drwy ddefnyddio trethi gwyrdd er mwyn cyflawni nodau amgylcheddol. Bwriedir i drethi gwyrdd (h.y. ardollau ar ddefnyddio mawn, plaleiddiaid, gwrteithiau a charbon) gynnig cymhelliant ariannol i fusnesau a defnyddwyr unigol leihau eu heffaith amgylcheddol negyddol ac, ar yr un pryd, gynhyrchu refeniw er mwyn ariannu rhaglenni amgylcheddol.

Mae gan lawer o fusnesau yn y sector preifat ddiddordeb mewn diogelu'r amgylchedd. Yn wir, mae llawer o Brif Swyddogion Gweithredol yn rhoi eu harian eu hunain ac, weithiau, gall y busnesau a redir ganddynt wneud mân fuddsoddiadau os na fyddant yn effeithio gormod ar broffidioldeb. Fodd bynnag, yn wahanol i ddyngarwch, ni fyddant yn defnyddio cyfalaf ar gyfer prosiectau cadwraeth na phrosiectau amgylcheddol nad ydynt yn addo manteision economaidd. Mae a wnelo buddsoddiad preifat mewn natur â gwneud elw. Mae adroddiad yr RSPB ar gyllido cadwraeth yn llunio rhai casgliadau nodedig ynglŷn â'r rhwystrau a geir yn y DU (a hefyd yn fyd-eang) i sicrhau y daw hyn yn rhywbeth arferol i gyrff anllywodraethol amgylcheddol:

- Diffyg prosiectau y gellir buddsoddi ynddynt.

[30] Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yr Alban (2020) *The £1 billion Challenge: Route map from the Scottish Conservation Finance Project* . Ar gael yn: https://scottishwildlifetrust.org.uk/news/route-map-to-1-billion-for-nature-conservation-published/

[31] RSPB (2018) *Bridging the finance gap* . Ar gael yn: https://www.rspb.org.uk/our-work/policy-insight/wildlife-and-the-economy/financing-nature/

- Nid oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau fawr ddim profiad o'r math hwn o gyllido na'r arbenigedd ariannol mewnol sydd ei angen.
- Mae'n debygol y byddai angen i'r rhan fwyaf o sefydliadau gydweithio â phartneriaid i ddatblygu prosiect llwyddiannus oherwydd graddfa ac arbenigedd.
- Nid oes digon o brosiectau mwy o faint sydd, fel arfer, yn ddeniadol i fuddsoddwyr.
- Bydd angen i'r Llywodraeth arwain y ffordd drwy strategaeth, rheoleiddio a chymhellion a fydd yn ysgogi'r sector preifat i fuddsoddi

Mae'r pwynt olaf hwn yn allweddol oherwydd, heb gymorth y Llywodraeth, bydd yn anodd iawn i sefydliadau gynhyrchu refeniw drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar fuddsoddi. Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Sefydliad Paulson, The Nature Conservancy a Chanolfan Cynaliadwyedd Cornell Atkinson[32] yn nodi sawl argymhelliad i Lywodraethau a fyddai'n cyflymu'r broses o gyllido cadwraeth er mwyn cau'r bwlch cyllid, y byddai rhai ohonynt yn gymwys yng nghyd-destun Cymru.

Cred yr RSPB y bydd mwy o wariant gan y Llywodraeth ar wella bioamrywiaeth; gwella ansawdd dŵr ac aer; hwyluso storio carbon; a gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol â natur, yn arwain at fwy o fuddsoddiad gan y sector preifat. Mae'r 'tyrru i mewn' hwn yn digwydd am fod mwy o wariant gan y Llywodraeth yn arwain at fwy o dwf economaidd sydd, yn ei dro, yn annog cwmnïau yn y sector preifat i fuddsoddi am fod cyfleoedd buddsoddi mwy proffidiol bellach i'w cael.

Yn ddiau, bydd y 'Grŵp Cyllido Arloesol' presennol a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhai argymhellion diddorol yn y maes cyllido hwn ac amser a ddengys pa mor gyflym y byddent yn bwrw ati i ddiwallu angen mor ddybryd.

8.8. Buddsoddiad cymdeithasol

Buddsoddiad cymdeithasol, yn wahanol i gyllido cadwraeth fel y'i trafodwyd uchod, yw rhoi cyllid ad-daladwy i elusennau a sefydliadau cymdeithasol eraill. Nid yw buddsoddiad cymdeithasol yn incwm ynddo'i hun ond gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu incwm. Er nad yw cyllid ad-daladwy yn gysyniad arloesol yn y byd masnachol yn sicr, prin iawn yw'r elusennau o hyd sy'n ystyried bod hwn yn opsiwn. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o gyllidwyr sy'n cynnig naill ai cymysgedd o opsiynau grant a chyllid neu gyllid y gellir ei ad-dalu'n llawn. Gall buddsoddiad cymdeithasol amrywio o fenthyciadau syml sydd i'w had-dalu dros nifer penodol o flynyddoedd neu gallai ddarparu pont cyllido i'w had-dalu o fewn cyfnod byrrach o amser, er enghraifft, er mwn talu gorbenion tra'n aros i gontract gael ei ddyfarnu neu i grant gael ei dalu.

Yn fwyfwy, mae sefydliadau yn sector y Celfyddydau a Diwylliant yn defnyddio cyllid ad-daladwy fel ffordd o gefnogi syniadau newydd, rhaglenni newydd neu fodelau busnes i'w galluogi i gyflawni eu cenhadaeth (gweler Enghraifft 9 isod). Fel arfer, mae sefydliadau mwy o faint yn fwy tebygol o ystyried cyllid ad-daladwy fel opsiwn, gyda sefydliadau llai o faint yn lleisio pryderon ynghylch ad-daliadau, amodau contract a'r ffaith nad oed diogon o adnoddau mewnol i reoli'r broses[33].

[32] Deutz et al (2020) *Financing Nature: Closing the Global Biodiversity Financing Gap* . Cyhoeddwyd gan Sefydliad Paulson, The Nature Conservancy a Chanolfan Cynaliadwyedd Cornell Atkinson. Ar gael yn: https://www.paulsoninstitute.org/key-initiatives/financing-nature-report/

[33] Nesta (2018) *Repayable finance in the arts and culture sector*. Ar gael yn: https://www.nesta.org.uk/report/repayable-finance-in-the-arts-and-cultural-sector/

Ymhlith y sefydliadau sy'n datblygu modelau newydd o gyllid ad-daladwy mae UNICEF (gweler *Buddsoddi mewn Codi Arian* isod), sy'n gweithio gyda Banc y Byd er mwyn ei helpu i ehangu a datblygu gweithgarwch codi arian mewn 18 o wledydd â marchnadoedd sy'n datblygu.

Mae rhai elusennau wedi datblygu eu cynhyrchion buddsoddiadau cymdeithasol eu hunain. Scope, sy'n elusen i bobl anabl, oedd un o'r elusennau cyntaf i ymuno â'r farchnad bondiau cymdeithasol gyda dyroddiad bondiau gwerth £20m yn 2010. Ariannodd ymgyrchoedd codi arian a'r gwaith o ehangu ei rwydwaith o siopau elusennol a'r bwriad oedd y byddai'n cael ei ad-dalu gan y buddsoddiad hwnnw. Ffurfiodd Scope bartneriaethau â'r cwmni buddsoddiad cymdeithasol arbenigol Investing for Good a gweithredwyr masnachol gan gynnwys Bank of New York Mellon, Capita a Linklaters and Weil. Ers hynny, mae'r farchnad wedi ehangu'n sylweddol gyda mwy o'r elusennau mwy o faint yn ystyried hyn fel ffordd arloesol o gyllido eu cenhadaeth.

ENGHRAIFFT 9: Cyllid gan Nesta i'r Celfyddydau a Diwylliant

Mae rhai sectorau yn edrych fwyfwy ar ffyrdd newydd o gyllido. Bu Nesta ar flaen y gad yn hyn o beth yn sector y Celfyddydau a Diwylliant, gan gydweithio â chyllidwyr eraill i gynnig cyllid ad-daladwy fforddiadwy.

Lansiodd Nesta Gronfa Effaith y Celfyddydau yn 2015 fel cronfa fuddsoddi effaith gyntaf y byd yn benodol ar gyfer y sector y celfyddydau a diwylliant. Fe'i crëwyd gan nifer o gyllidwyr yn dod at ei gilydd (Banc America, Sefydliad Esmée Fairbairn, Cyngor y Celfyddydau Lloegr a Sefydliad Calouste Gulbenkian) ac fe'i cynullwyd gyda chymorth Swyddfa'r Cabinet, er mwyn dangos y gwerth cymdeithasol sylweddol a grëir gan sefydliadau celfyddydol a chefnogi eu gwaith drwy ddarparu cyllid ar ffurf benthyciadau. Roedd y Gronfa yn cynnig cyllid anwarantedig rhwng £150,000 a £600,000 a oedd yn ad-daladwy dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Medi 2019, buddsoddwyd £8.8 miliwn mewn 27 o sefydliadau.

Cynhaliodd Nesta ragor o ymchwil yn y sector a ddangosodd fod galw am gyllid ad-daladwy fforddiadwy, ond ar raddfa lai*. Felly, yn dilyn hyn, yn 2018, lansiodd y Gronfa Ddatblygu Effaith Ddiwylliannol. Roedd y gronfa hon yn cynnig symiau llai o gyllid ad-daladwy rhwng £25,000 a £150,000 i alluogi sefydliadau i addasu eu modelau busnes er mwyn gwella eu cydnerthedd ariannol a chyflawni eu nodau effaith gymdeithasol. Cefnogwyd y Gronfa gan Access – The Foundation for Social Investment drwy raglen y Gronfa Dwf, gyda chyllid yn cael ei ddarparu gan ei bartneriaid, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Big Society Capital.

Gan adeiladu ar lwyddiant y ddwy gronfa flaenorol, yn ddiweddar lansiodd cronfa fuddsoddi effaith fwyaf y byd ar gyfer y celfyddydau creadigol. Mae'r gronfa yn dwyn ynghyd gymysgedd o fuddsoddwyr cyhoeddus, preifat a dyngarol – Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Big Society Capital, Banc America, Sefydliad Esmée Fairbairn, Sefydliad Freelands a Nesta ei hun. Gyda £23 miliwn ar gael, mae'r gronfa yn cynnig benthyciadau rhwng £150,000 a £1 filiwn sy'n ad-daladwy tan 2030.

*Adroddiad Nesta: *Repayable finance in the arts and culture sector*

8.9. Crynodeb

Tabl 1: Crynodeb o ffynonellau incwm

Ffynhonnell incwm	**Cyfleoedd**	**Bygythiadau**
Statudol	● Adferiad gwyrdd yn bendant ar agenda Llywodraeth Cymru a allai olygu bod cyllid newydd ar gael ● Gallai lobïo hwyluso newid yn ôl i gyllid aml-flwyddyn tymor hwy (gan gynnwys talu costau craidd).	● Cyllid grant yn lleihau. ● Gwerth contractau yn parhau'n sefydlog. ● Mae'r dull gweithredu presennol yn cynnwys cyllid byrdymor sy'n seiliedig ar brosiectau yn bennaf. ● Prosesau gwneud cais cymhleth. ● Amserlenni hir ar gyfer gwneud penderfyniadau ● Gellir gohirio taliadau.
Unigolion *(gan gynnwys aelodau, rhoddwyr rheolaidd a rhoddwyr untro, codwyr arian drwy ddigwyddiadau herio, rhoddwyr mawr, cymynroddion)*	● Ymwybyddiaeth gynyddol o faterion amgylcheddol. ● Marchnadoedd a allai fod yn fawr. ● Ffynhonnell werthfawr o incwm anghyfyngedig. ● Mae datblygu sylfaen cefnogwyr eang yn creu cydnerthedd. ● Ffynhonnell o wirfoddolwyr a chenhadon.	● Cost codi arian – mae'n gofyn am fuddsoddiad parhaus dros amser er mwyn sicrhau enillion. ● Y gallu i godi arian ac wedyn stiwardio rhoddwyr – mae angen buddsoddi mewn adnoddau. ● Diffyg gweithwyr proffesiynol medrus yng Nghymru. ● Diffyg cyfoeth yng Nghymru.
Ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol	● Mae ymddiriedolaethau mawr yn gwneud mwy i annog ceisiadau o Gymru. ● Bydd prosesau gwneud cais yn dod yn haws gyda phenderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflymach. ● Gwelliannau mewn prosesau cofnodi – byddant yn llai beichus.	● Incwm cyfyngedig yn aml ac efallai na fydd yn talu costau craidd cysylltiedig. ● Nid yw Cymru yn gartref i nifer mawr o ymddiriedolaethau elusennol ac, yn hanesyddol, nid yw wedi cael arian gan ymddiriedolaethau elusennol sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd eraill. ● Efallai y bydd angen ceisiadau cydweithredol a cheisiadau partneriaeth ar gyfer ymddiriedolaeth sy'n gofyn am arloesi (gellid hefyd ystyried ei fod yn gyfle!)
Corfforaethol *(Gan gynnwys rhoddion untro, nawdd, partneriaethau strategol, aelodau)*	● Mae cwmnïau yn fwyfwy awyddus i wella eu henw da fel sefydliadau sy'n ymrwymedig i'r amgylchedd.	● Cost codi arian – mae angen buddsoddi mewn adnoddau. ● Nid yw Cymru yn gartref i nifer mawr o gwmnïau mawr na phencadlysoedd.

	● Mynediad at arbenigedd staff, darparu gwirfoddolwyr ac incwm unigol.	● Ystyriaethau moesegol. ● Goblygiadau o ran TAW.
Masnachol/Enillwyd *(gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant, manwerthu, rhentu, bwyd a diodydd, digwyddiadau)*	● Ffynhonnell incwm anghyfyngedig. ● Denu cynulleidfa ehangach. ● Gall gyd-fynd â'r genhadaeth.	● Angen posibl i dalu costau ymlaen llaw a allai olygu benthyg arian neu drefnu benthyciadau. ● Gall gymryd sawl blwyddyn i wneud elw. ● Gallai sylw staff gael ei dynnu oddi ar y genhadaeth graidd.
Gwaddol	● Ffynhonnell flynyddol o incwm anghyfyngedig. ● Mae rhoddwyr yn ymddiddori fwyfwy yn yr effaith hirdymor, yn enwedig ar gyfer yr amgylchedd.	● Mae'n anodd iawn codi arian ar gyfer y cyfalaf. ● Gallai fod angen codi arian er mwyn cynnal y cyfalaf. ● Nid yw amrywiadau mewn enillion o flwyddyn i flwyddyn yn addas i sefydliadau y mae angen sefydlogrwydd arnynt. ● Cyfraddau llog isel ar hyn o bryd.
Cyllido cadwraeth.	● Swyddogion Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff anllywodraethol amgylcheddol, yn dod at ei gilydd i gyd-gynhyrchu fframwaith cyllido arloesol - cyhoeddir argymhellion yn fuan.	● Diffyg arbenigedd ariannol mewn cyrff anllywodraethol amgylcheddol. ● Diffyg prosiectau mawr y gellir buddsoddi ynddynt. ● Mae angen i'r Llywodraeth arwain y ffordd drwy strategaeth, rheoleiddio a chymhellion a fydd yn ysgogi'r sector preifat i fuddsoddi.
Buddsoddiad cymdeithasol (*Cyllid ad-daladwy/benthyciadau)*	● Telerau ad-dalu dros gyfnod hir. ● Cyfraddau llog fforddiadwy.	● Gwaith cynllunio busnes gwael yn golygu na ellir gwneud ad-daliadau

9. Buddsoddi mewn codi arian

Derbynnir yn eang, er mwyn i weithgarwch codi arian fod yn llwyddiannus, fod angen buddsoddi parhaus dros gyfnod hir o amser. Nid yw'n bosibl denu rhoddwyr na'u cadw, heb rywfaint o fuddsoddiad mewn adnoddau a'r gyllideb gwariant. Cynhaliwyd sawl rhaglen yng Nghymru, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri, y bwriadwyd iddynt feithrin gallu ym maes codi arian. Mae'r sector Addysg Uwch (gweler Enghraifft 10 isod), sector y Celfyddydau a Diwylliant a'r sector Treftadaeth oll wedi cael budd o'r buddsoddiad hwn.

Enghraifft 10: Cynllun Arian Cyfatebol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer Rhoi'n Wirfoddol

Yn 2008, cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen i Sefydliadau Addysg Uwch fuddsoddi mewn gweithgarwch codi arian er mwyn ysgogi buddsoddiad preifat. Yn 2009, dilynodd CCAUC arweiniad Lloegr drwy gytuno ar gronfa gyllido gwerth £10m dros 3 blynedd er mwyn cynyddu ac ehangu gallu prifysgolion yng Nghymru i godi arian a chymell cyn-fyfyrwyr ac unigolion eraill i roi'n wirfoddol drwy warantu arian cyfatebol gan y Llywodraeth. Dyrannwyd rhywfaint o'r cyllid ar gyfer meithrin gallu. Cafodd y sefydliadau hynny nad oedd ganddynt fawr ddim profiad o godi arian, os o gwbl, £20,000 yr un fel buddsoddiad cychwynnol ac roedd pob un yn gallu manteisio ar hyfforddiant wedi'i ariannu a ddarparwyd gan CASE (y Cyngor Hyrwyddo a Chefnogi Addysg).

Cymhwyswyd arian cyfatebol mewn amrywiaeth o ffrydiau incwm o weithgarwch codi arian, gan gynnwys:

- Rhoddion arian parod gan unigolion
- Rhoddion ar ffurf cyfranddaliadau
- Rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol bach/canolig sy'n rhoi llai na £60m y flwyddyn
- Rhoddion corfforaethol
- Rhoddion o dramor
- Cymorth Rhodd

Ystyriwyd bod y cynllun yn llwyddiant. Yn ei drydedd flwyddyn, sicrhaodd prifysgolion yng Nghymru £5.7 miliwn o weithgarwch codi arian, o gymharu â dim ond £1.7 miliwn a sicrhawyd ganddynt yn y flwyddyn cyn i'r cynllun ddechrau.* Er bod rhai wedi'i chael hi'n fwy anodd nag eraill, parhaodd bron pob prifysgol yng Nghymru i fuddsoddi mewn gweithgarwch codi arian ar ôl i'r cynllun arian cyfatebol ddod i ben a 12 mlynedd yn ddiweddarach, mae gan y mwyafrif dimau codi arian hirsefydlog sy'n cynhyrchu incwm ym mhob ffrwd incwm ddyngarol.

*Adroddiad ar Arolwg Ross-Case 2012[34]

Mae rhai elusennau yn codi'r buddsoddiad sydd ei angen mewn ffordd arloesol. Er enghraifft, yn ddiweddar nododd UNICEF fod offeryn ariannol yn cael ei ddatblygu er mwyn hwyluso buddsoddi mewn gweithgarwch codi arian[35]. Bydd yr offeryn ariannol yn cynnwys trefniant rhwng Banc y Byd ac UNICEF i godi'r cyllid ychwanegol, gan ddefnyddio gwasanaethau ac arbenigedd Banc y Byd yn y marchnadoedd ariannol. Fel rhan o'r model arloesol hwn caiff $50 miliwn ei ddefnyddio i ariannu'r twf mewn gweithgarwch codi arian yn y sector preifat ym marchnadoedd 18 o wledydd sy'n datblygu y disgwylir iddo, ar y cyd â buddsoddiadau eraill, sicrhau $450 miliwn gan roddwyr addunedau misol preifat mewn marchnadoedd sy'n datblygu dros gyfnod o bum mlynedd.

Daw llawer o'r enghreifftiau o arloesi a geir yn yr adroddiad hwn o elusennau cenedlaethol mawr y mae llawer o adnoddau ar gael iddynt. Yn anffodus, nid yw llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru yn ddigon mawr i ystyried buddsoddi mewn llawer o'r datblygiadau arloesol a nodir, sy'n aml yn gofyn am faint a chyrhaeddiad er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus. Heb gymorth allanol, bydd y rhan fwyaf o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yn ei chael hi'n anodd arloesi ym maes codi arian.


9.1. Enillion disgwyliedig ar fuddsoddiad

Yn anffodus, nid oes llawer o ddata diweddar sy'n darparu'r dystiolaeth i ddangos yr enillion ar fuddsoddiad o weithgarwch codi arian. Er ei bod yn ofynnol i elusennau gofnodi eu gwariant ar weithgarwch codi arian yn eu cyfrifon blynyddol, ceir cryn dipyn o amrywiadau o ran beth mae hyn yn ei gynnwys ac, felly, ni ellir ei ddefnyddio i gyfrifo'r enillion gwirioneddol ar fuddsoddiad. Roedd y Sefydliad Siartredig Codi Arian yn arfer cynnal ei arolwg blynyddol, *Fundratios*, a ddarparodd wybodaeth werthfawr am enillion blynyddol ar fuddsoddiad, ond nid yw'r arolwg hwn wedi'i gynnal ers 2013. Yn ddiweddar, mae un asiantaeth ymgynghori wedi dechrau cynnal arolwg meincnodi blynyddol (er ei bod yn defnyddio maint samplu bach o 39 o elusennau) ac ymddengys fod canlyniadau 2020 yn adlewyrchu tystiolaeth anecdotaidd am enillion ar fuddsoddiad[36]:

[34] NatCen (2012) *Giving to Excellence: generating philanthropic support for UK Higher Education 2010-11, Ross-CASE Survey Report*. Ar gael yn: https://www.case.org/resources/case-ross-support-education-survey-united-kingdom-and-ireland

[35] https://www.unicef.org/executiveboard/documents/world-bank-instrument-facilitate-sustained-investment-private-sector-fundraising-frs-2021

[36] LarkOwl (2020) *The Calm before the Storm: UK Fundraising ROI 2020* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://larkowl.uk/fundraising-benchmarking-2019/



Ffynhonnell: LarkOwl

Er mai codi arian drwy gymynroddion yw'r enillydd amlwg, mae'n anodd iawn cyfateb gwariant ar y maes codi arian hwn i incwm mewn unrhyw flwyddyn benodol. Dylid hefyd nodi bod yr ymatebwyr i'r arolwg yn amrywio'n fawr o ran maint, achos, maes gweithredu a'r amser a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer codi arian - y gall pob un ohonynt gael effaith sylweddol ar enillion ar fuddsoddiad. Gall y prif ffigurau hyn hefyd ddatgelu'r amrywiadau mawr sy'n bodoli. Er enghraifft, er mai'r enillion cyfartalog ar fuddsoddiad ar gyfer rhoddion gan unigolion yw £6.28 am bob £1 sy'n cael ei gwario – mewn gwirionedd, roedd yr ymatebion yn yr arolwg yn amrywio o £0.22 a £26.56, gydag 8 o'r 28 o elusennau yn cofnodi enillion ar fuddsoddiad gwerth £2 neu lai.

10. Opsiynau ar gyfer adnoddau datblygu prosiectau a rennir

Tynnodd adroddiad y Funding Centre yn 2020, a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sylw at bartneriaethau ystyrlon a bydd cydweithredu wrth wraidd yr Adferiad Gwyrdd. Mae'n argymell darparu adnoddau ar gyfer creu consortia a phartneriaethau. Er enghraifft, heb gymorth, gall fod bron yn amhosibl dysgu sut i greu consortia ar gyfer ceisiadau neu bartneriaethau cymhleth os nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny.

Yn Lloegr a'r Alban, mae rhai o'r partneriaethau prosiect mwyaf uchelgeisiol rhwng cyrff anllywodraethol amgylcheddol hyd yma wedi'u gwneud yn bosibl drwy gydweithio ag asiantaethau'r Llywodraeth: Natural England (Back from the Brink) a NatureScot (Species on the Edge). Yn yr un modd, mae prosiect Natur am Byth, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer cais am £5 miliwn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn enghraifft dda o'r ffordd y gall Cyfoeth Naturiol Cymru hwyluso prosiectau uchelgeisiol ar y cyd.

Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i gyllidwyr, yn enwedig cyllidwyr statudol a chyllidwyr loteri, geisio cynigion sy'n gofyn am ddull partneriaeth. Mae cyllid trawswladol yr UE wedi gofyn am geisiadau partneriaeth gan sawl aelod-wladwriaeth ers blynyddoedd lawer fel ffordd o annog cydlyniant. Fodd bynnag, mae'r lefel hon o gydweithio yn gofyn am adnoddau a chapasiti ar raddfa nad oes gan y rhan fwyaf o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Bydd ceisio ffyrdd newydd o ddarparu adnoddau ar gyfer datblygu prosiectau aml-bartner yn allweddol.

Mae adroddiad gan y Funding Centre, a gomisiynwyd gan Cyswllt Amgylchedd Cymru ar feithrin gallu, cydweithrediad ac amrywiaeth yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi tynnu sylw at y problemau y mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn eu hwynebu:

- Adnoddau sy'n lleihau yw'r broblem fwyaf sy'n effeithio ar y gallu i greu cydweithrediadau ar raddfa fawr.
- Mae llawer o'r sefydliadau yn fach iawn a dim ond nifer bach o staff sydd ganddynt yng Nghymru. Mae gan eraill adnoddau sylweddol iawn yng Nghymru neu maent yn gallu defnyddio adnoddau yn Lloegr/y DU.
- Fawr ddim capasiti yng Nghymru i weithio ar ddatblygu prosiectau ac eithrio ar gyfer y byrdymor.

Mae rhwystrau eraill sydd wedi'u codi gan aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cynnwys diffyg cyllid craidd, rhwydweithiau cyfyngedig, diffyg cyfeiriad strategol, y gallu i ddangos tystiolaeth o'r effaith ac amharodrwydd i gydweithio am fod darpar bartneriaid yn cael eu hystyried yn gystadleuwyr.

Dylai aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru ystyried y ffordd orau o gynnwys y cyllidwyr allweddol yn y sector – Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – mewn trafodaethau ynghylch sut y gallent ddefnyddio eu rôl i ddileu rhwystrau i gydweithio, er enghraifft, drwy ddarparu cyllid sbarduno neu gyllid datblygu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio.

11. Casgliadau ac argymhellion

- Bydd arloesi yn edrych yn wahanol ar gyfer pob sefydliad Ceir bob amser y posibilrwydd o arloesi gwirioneddol ddilys, sef ceisio rhywbeth na roddwyd cynnig arno erioed o'r blaen

ond, yn achos y sector amgylcheddol, efallai ei bod yn bwysig cofio y gall arloesi olygu rhoi cynnig ar rywbeth newydd sy'n gweithio rywle arall ar gyfer sefydliad. Mae digon o gyfle i sefydliad sicrhau mai ef yw'r un sefydliad cyntaf yng Nghymru, neu'r sefydliad amgylcheddol cyntaf, i ddatblygu dull penodol o godi arian.

- Mae rhai datblygiadau cyffrous iawn yn ymwneud â rhoi gan unigolion, yn enwedig drwy ddefnyddio technolegau digidol, ond mae'n ddigon posibl y gall dulliau o godi arian sydd wedi hen ennill eu plwyf gael mwy o effaith yn y tymor canolig. Mae cymynroddion yn enghraifft dda o hyn.

- Mae arloesi yn gofyn am rywfaint o sefydlogrwydd a chapasiti sefydliadol Ar gyfer y mwyafrif o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru sy'n dibynnu ar gyllid ar gyfer prosiectau a chontractau byrdymor heb fawr ddim cyllid craidd, os o gwbl, mae hyn yn rhwystr gwirioneddol i arloesi. Mae'n rhaid buddsoddi yn y sector amgylcheddol yng Nghymru, efallai drwy raglen gymorth sy'n benodol ar gyfer y sector a chyflwyno'r achos dros fodelau gwell o gyllid craidd gan ffynonellau cyhoeddus. Gall Cyswllt Amgylchedd Cymru chwarae rôl bwysig drwy helpu i hyrwyddo'r neges.

- Er mwyn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau ym maes codi arian, ystyriwch ddichonoldeb rhaglen interniaeth i raddedigion sy'n debyg i fodel 'Interniaeth Greadigol' Arts and Business Cymru. Gallai'r math hwn o gynllun fod yn fuddiol iawn yn y byrdymor a'r hirdymor i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol a gellid ystyried mai Cyswllt Amgylchedd Cymru yw hwylusydd naturiol hyn ar yr amod y gall feithrin partneriaethau cryf â phrifysgolion yng Nghymru.

- Ystyriwch sut y gellid targedu codwyr arian mewn cyrff anllywodraethol amgylcheddol ar gyfer cymorth datblygiad proffesiynol, er enghraifft, drwy gyfleoedd i rwydweithio drwy Cyswllt Amgylchedd Cymru neu sefydliad arall megis CIOF Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac ati.

- Gallai dull seiliedig ar gryfderau o gefnogi sefydliadau sydd eisoes yn dda am godi arian gael yr effaith fuddiol o gynyddu capasiti ym mhob rhan o'r sector. Dyna'n union sydd wedi digwydd yn sector y Celfyddydau lle mae sefydliadau mwy o faint â digon o adnoddau wedi darparu lleoliadau i interniaid neu brentisiaid sydd wedyn yn mynd ymlaen i weithio mewn sefydliadau llai o faint lle y gallant gael effaith sylweddol.

- Gallai cydweithio rhwng sefydliadau amgylcheddol a sefydliadau y tu allan i'r sector, megis achosion cymdeithasol a grwpiau cymunedol, fod yn ffynhonnell arloesi sy'n arwain at gyfleoedd cyllido newydd o ffynonellau statudol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau, yn ogystal â rhannu sgiliau. Wrth i ni gwblhau'r rhaglen hon, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cyhoeddi cronfa newydd er mwyn helpu pobl o gymunedau difreintiedig i fanteisio mwy ar yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch – Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau[37]. Mae hon yn enghraifft galonogol o'r potensial i gydweithio â'r sector cymdeithasol.

[37] https://www.heritagefund.org.uk/funding/local-places-for-nature-breaking-barriers